**INTENTIONALLY BLANK**

**INTENTIONALLY BLANK**

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn a'r arolygiadau peilot; ni fyddem wedi gallu cynnal yr arolygiad heb eu cydweithrediad hwy.

Yn fwyaf arbennig, hoffem ddiolch i'r Timau Troseddwyr Ifanc yng Nghaerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf, Bromley, Calderdale, Swydd Derby, Sir y Fflint, Dinas Nottingham a Reading ynghyd â'r adrannau gwasanaethau plant cyfatebol a'r Ymddiriedolaethau Prawf a'r Heddluoedd yn Avon a Gwlad yr Haf, Swydd Derby, Llundain, Swydd Nottingham, Gogledd Cymru, Dyffryn Tafwys a Gorllewin Swydd Efrog.

Roedd yr arolygiad hwn yn rhan o raglen arolygiadau Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi o Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc ar gyfer 2013-2014. Rydym yn ddiolchgar am y cymorth ychwanegol a ddarparwyd gan ein cyfeillion yn Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant ac Ofsted wrth inni gynnal yr arolygiad hwn.

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Arweiniol** | Jane Attwood, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Dirprwy Arolygydd Arweiniol** | Tony Rolley, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Y Tîm Arolygu** | Lisa Clarke, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Keith Redfern Humphreys, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Iolo Madoc-Jones, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Avtar Singh, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*<br>Paul Eveleigh, *Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi*<br>Mark Ewan, *Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi*<br>Martine Moore, *Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi*<br>Neil Wain, *Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi*<br>Bobbie Jones, *Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)* |

| | |
|---|---|
| | Iain McKay, *Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)*<br><br>James McParland, *Ofsted* |
| **Staff Cymorth Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi** | Pippa Bennett, *Rheolwr Gwasanaethau Cymorth (Gwybodaeth a Gweithrediadau)*<br><br>Adam Harvey, *Swyddog Gwasanaethau Cymorth (Gwybodaeth a Gweithrediadau)*<br><br>Jo Hewitt, *Swyddog Gwasanaethau Cymorth (Gwybodaeth a Gweithrediadau)*<br><br>Oliver Kenton, *Swyddog Ymchwil Cynorthwyol*<br><br>Lynne Osborn, *Swyddog Gwasanaethau Cymorth (Gwybodaeth a Gweithrediadau)*<br><br>Alex Pentecost, *Rheolwr Gwasanaethau Cymorth (Cyfathrebu)* |
| **Prif Arolygydd Cynorthwyol** | Andy Smith, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |

Sylwer – newidiwyd pob un o'r enwau sydd yn yr enghreifftiau o ymarfer rhag datgelu manylion personol unigolion.


# Rhagair

Mae gan staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth troseddwyr ifanc ran hollbwysig i'w chwarae, ochr yn ochr ag asiantaethau eraill, er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc. Mae ganddynt hefyd ran allweddol i'w chwarae wrth reoli troseddwyr sy'n achosi risg i blant a phobl ifanc.

Yn gyffredinol, gwelsom fod y staff yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri a gwelsom nifer o enghreifftiau o ymarfer da lle'r oedd yn amlwg bod cyfraniad y staff wedi cael ei ystyried yn ofalus a'i fod yn effeithiol. Er hyn, roedd llawer nad oeddent yn ystyried gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc fel un o'u tasgau craidd. Yn ychwanegol at hyn, yn y sefydliadau y gwnaethom ymweld â hwy, nid oedd y systemau i reoli'r gwaith o adnabod ac atgyfeirio plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl yn ddigon cadarn i ni fod yn hyderus bod popeth wedi cael ei wneud ym mhob achos er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc. Gwelsom ddiffygion hefyd yng nghyswllt goruchwyliaeth y rheolwyr a chyfarwyddyd ymarfer. Roedd angen i'r rheolwyr wneud mwy er mwyn cywiro'r diffygion hyn ac, yn fwyaf arbennig, mae angen arweiniad er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod beth yw ei rôl ef neu hi er mwyn helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc.

Nid cyfrifoldeb un sefydliad yw amddiffyn plant a phobl ifanc. Roedd gormod o waith yn cael ei wneud mewn 'seilos' sefydliadol ynysig. Yn aml iawn gwelsom fod angen cydweithio ag asiantaethau eraill, er enghraifft wrth gyfnewid gwybodaeth a gwneud asesiadau, ac nid oedd hyn yn digwydd. Er mwyn i drefniadau i amddiffyn plant a phobl ifanc weithio'n iawn, mae angen i uwch reolwyr yn y gwasanaethau prawf a'r gwasanaethau troseddwyr ifanc ymgysylltu'n effeithiol ar lefel strategol ag asiantaethau eraill. Os byddant yn gwneud hynny, mae ymarfer effeithiol yn fwy tebygol o gael ei ddatblygu a'i weithredu, a bydd dealltwriaeth o'r rolau y mae pob un o'r gwahanol asiantaethau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a phobl ifanc yn eu chwarae yn cynyddu.

Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad hwn cyn i'r arolygiadau integredig o wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen rhywun i'w helpu a'u hamddiffyn gael eu cyflwyno. Rydym yn gefnogol iawn i'r egwyddor o gydarolygiadau a byddwn yn bartner yn yr arolygiadau hyn. Byddwn hefyd yn dal i ganolbwyntio ar amddiffyn plant a phobl ifanc yn ein harolygiadau craidd o waith yn y gwasanaethau prawf a'r Timau Troseddwyr Ifanc. Bwriadwyd yr argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn er mwyn gwneud y canlyniad o amddiffyn plant yn effeithiol yn fwy tebygol ym mhob achos perthnasol.



Paul McDowell
**Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi**

## Cynnwys

Tudalen


**Diolchiadau** **3**

**Rhagair** **5**

**Crynodeb o'r canfyddiadau** **7**

**Argymhellion** **12**

**1. Cwmpas a phwrpas** **13**

**2. Gwaith gan Ymddiriedolaethau Prawf er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc** **19**

**3. Gwaith gan Dimau Troseddwyr Ifanc er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc** **34**

**4. Rheolaeth ac arweiniad** **49**

**Atodiad 1 Geirfa** **56**

**Atodiad 2 Rôl yr arolygiaeth a'i chod ymarfer** **58**

**Atodiad 3 Cyfeiriadau** **59**

**Atodiad 4 Enghraifft o restr gyfeirio Diogelu Plant** **60**

## Crynodeb o'r canfyddiadau

### Yr arolygiad

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi mewn ymateb i ganfyddiadau ein rhaglenni arolygu prif ffrwd ar gyfer arferion gwaith prawf a throseddwyr ifanc a oedd yn awgrymu nad oedd safon gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc a oedd yn cael ei wneud gan Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc yn ddigonol bob amser.

Canolbwyntiwyd yn ystod yr arolygiad ar waith i nodi'r plant a'r bobl ifanc hynny a oedd mewn perygl o niwed a chymryd camau priodol os oedd angen. Ymwelsom â chwech o Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc er mwyn asesu ansawdd y gwaith gan arolygu achosion a chyfweld rheolwyr troseddwyr/achosion. Rhwng popeth gwnaethom arolygu:

- 58 gorchymyn yn cael eu dal gan Ymddiriedolaethau Prawf ac 83 gorchymyn yn cael eu dal gan Dimau Troseddwyr Ifanc a oedd wedi dechrau yn ystod y cyfnod o dri mis cyn yr arolygiad
- 42 achos mewn Ymddiriedolaethau Prawf a 36 achos mewn Timau Troseddwyr Ifanc lle'r oedd cynllun amddiffyn plentyn yn cael ei weithredu neu wedi bod yn cael ei weithredu ar ryw adeg yn ystod y gorchymyn
- 48 o gyfeiriadau at wasanaethau gofal cymdeithasol plant a oedd wedi cael eu gwneud gan Ymddiriedolaethau Prawf a 37 a oedd wedi cael eu gwneud gan Dimau Troseddwyr Ifanc.

Gwnaethom hefyd gyfweld rheolwyr, staff a phartneriaid allweddol ar lefel leol a chenedlaethol a oedd yn ymwneud â gwaith i amddiffyn plant.

### Cyd-destun

Cynhaliwyd yr arolygiad cyn i'r Ymddiriedolaethau Prawf gael eu had-drefnu i ffurfio'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol fel rhan o strategaeth *Gweddnewid Adsefydlu* y Llywodraeth. O ganlyniad, mae'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig â throseddwyr sy'n oedolion yn ymwneud ag Ymddiriedolaethau Prawf. Fodd bynnag, gan y bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn rheoli achosion lle mae pryder ynglŷn ag amddiffyn plant, credwn fod ein canfyddiadau'n berthnasol i bawb a fydd yn darparu gwasanaethau prawf yn y dyfodol.

Mae'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau prawf yn goruchwylio troseddwyr sy'n oedolion. Maent yn ymwneud yn bennaf â gwaith i leihau ymddygiad troseddol ac amddiffyn y cyhoedd ac, o ganlyniad i'r olaf, mae ganddynt ddyletswydd i amddiffyn plant a phobl ifanc; fodd bynnag, ni allant wneud hyn ar eu pen eu hunain. Mae gan wasanaethau prawf eu gweithdrefnau amddiffyn plant eu hunain, ond rhaid i'w gwaith gyda throseddwyr er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc fod yn rhan o waith ehangach sy'n cael ei wneud ar y cyd. Mae angen i'r gwaith hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gan yr heddlu ac asiantaethau eraill ac mae angen iddo gael ei hwyluso a'i alluogi gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant. Edrychasom ar waith mewnol Ymddiriedolaethau Prawf fel asiantaethau unigol ac ar eu gwaith ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a'r heddlu.

Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn gweithio mewn cysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu neu sydd mewn perygl o droseddu a'u rhieni/gofalwyr. Mae ymarfer Timau Troseddwyr Ifanc er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc yn rhan o waith ehangach sy'n cael ei wneud ar y cyd, ac unwaith eto mae angen iddo fod yn seiliedig ar wybodaeth gan asiantaethau partneriaeth sy'n gweithio gyda'r teulu a chael ei hwyluso a'i alluogi gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant. Gwnaethom arolygu'r gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a'r gwaith ar y cyd ag asiantaethau eraill, yn enwedig gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

## Canfyddiadau cyffredinol

### Gwaith gan Ymddiriedolaethau Prawf er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc

Roedd systemau wedi'u sefydlu er mwyn nodi'r plant a'r bobl ifanc hynny a oedd mewn perygl o niwed gan droseddwyr, ac er mwyn asesu, cynllunio a chyfrannu tuag at waith ar y cyd i'w hamddiffyn. Fodd bynnag, nid oedd polisïau'n cael eu dilyn bob amser, ac nid oedd y systemau'n cael eu gweithredu'n gyson bob amser. Nid oedd goruchwyliaeth y rheolwyr yn systematig nac yn effeithiol.

Er bod rhywfaint o waith da gan reolwyr troseddwyr unigol yn cyfrannu tuag at waith amddiffyn plant, roedd ansawdd yr ymarfer yn amrywio'n fawr rhwng y gwahanol Ymddiriedolaethau ac mewn Ymddiriedolaethau unigol. Nid oedd llawer o gynllunio neu weithio ar y cyd ag asiantaethau eraill. Nid oedd pob un o'r staff prawf yn deall yn iawn beth oedd pwrpas y gwaith na beth oedd eu rôl hwy ynddo; roedd hyn yn amlwg iawn lle'r oedd plant a phobl ifanc yn gweld trais domestig. Ar y llaw arall, ni ellid dweud bod gan staff gofal cymdeithasol plant, gan gynnwys cadeiryddion cynadleddau achos amddiffyn plant a grwpiau craidd, ddealltwriaeth dda bob amser o rôl staff prawf. Nid oedd eu harbenigedd yn cael ei gydnabod bob amser ac nid oedd ymdrech i ymchwilio i'w cyfraniad posibl.

### Gwaith gan Dimau Troseddwyr Ifanc er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc

Roedd cysylltiad da ar y cyfan rhwng y Timau Troseddwyr Ifanc a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac roedd ymholiadau ac atgyfeiriadau angenrheidiol yn cael eu gwneud a gwybodaeth yn cael ei rhannu.

Roedd staff Timau Troseddwyr Ifanc yn asesu ac yn cynllunio er mwyn helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc lle'r oedd angen, ond nid oedd y gwaith o ansawdd digonol bob amser. Nid oedd rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys bob amser ac nid oedd ymweliadau cartref yn cael eu gwneud bob amser. Ychydig o waith asesu a chynllunio oedd yn cael ei wneud **ar y cyd** gan yr asiantaethau a oedd yn gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc.

Roedd rhywfaint o waith uniongyrchol rhagorol a llawn dychymyg gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr a rhywfaint o waith partneriaeth da. Unwaith eto, nid oedd staff gofal cymdeithasol plant yn deall rôl staff Timau Troseddwyr Ifanc yn dda bob amser ac, o ganlyniad, nid oedd eu cyfraniad yn cael ei integreiddio mewn gwaith amddiffyn plant ar y cyd. Roedd gwaith i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.

Roedd systemau ar gyfer goruchwyliaeth gan reolwyr wedi eu sefydlu, ond nid oeddent yn effeithiol bob amser.

### Rheolaeth ac arweiniad

Nid oedd gwaith diogelu mewn Ymddiriedolaethau Prawf yn flaenoriaeth i reolwyr strategol bob amser ac nid oedd effaith Ymddiriedolaethau Prawf ar waith Byrddau Lleol Diogelu Plant yn glir bob amser. Ychydig o dystiolaeth a welsom o unrhyw her gan aelodau Byrddau Lleol Diogelu Plant i wella hyn.

Roedd cyfraniad Timau Troseddwyr Ifanc i waith Byrddau Lleol Diogelu Plant yn amrywio. Nid oedd yn amlwg sut roedd canlyniadau diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn cael eu gwella drwy waith y byrddau. Nid oedd cysylltiadau effeithiol rhwng Byrddau Lleol Diogelu Plant a Byrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc wedi'u sefydlu bob amser felly nid oedd y trefniadau goruchwylio strategol er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu yn gydgysylltiedig.

Roedd Byrddau Lleol Diogelu Plant ar gyfnodau amrywiol yn y broses o geisio datblygu dulliau o fesur canlyniadau er mwyn hybu gwelliannau, ond ychydig iawn o sylw oedd wedi cael ei roi ganddynt i waith Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc.

## Canfyddiadau penodol

### Gwaith gan Ymddiriedolaethau Prawf er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc

Roedd gan Ymddiriedolaethau Prawf bolisïau a gweithdrefnau er mwyn gweithio gyda throseddwyr a oedd yn achosi risg i blant a phobl ifanc a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyfrannu tuag at waith ehangach i amddiffyn plant a phobl ifanc. Roedd prosesau i nodi plant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â throseddwyr, roedd gwiriadau'n cael eu gwneud gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac roedd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud os oedd plentyn neu berson ifanc yn cael ei ystyried yn un a oedd mewn perygl o niwed.

Fodd bynnag, nid oedd asesiadau'n ystyried gwybodaeth gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant bob amser, ac nid oedd gwaith asesu a chynllunio ar y cyd yn cael ei wneud. Roedd rheolwyr troseddwyr yn cyfrannu tuag at gyfarfodydd amlasiantaeth ond roedd ansawdd y cyfraniad hwnnw'n amrywio. Roedd ansawdd gwaith prawf i amddiffyn plant a phobl ifanc yn amrywio'n fawr hefyd, rhwng gwahanol Ymddiriedolaethau Prawf ac mewn Ymddiriedolaethau Prawf unigol, ac nid oedd rheolwyr troseddwyr yn deall holl oblygiadau eu rôl bob amser. Nid oedd yn hawdd cael gafael ar wybodaeth rheoli'r gwasanaeth prawf ac nid oedd goruchwyliaeth y rheolwyr dros y maes gwaith hwn yn systematig.

Nid oedd staff o wasanaethau gofal cymdeithasol plant bob amser yn hwyluso dulliau da o rannu gwybodaeth ac nid oedd cadeiryddion cyfarfodydd amlasiantaeth bob amser yn annog gwaith ar y cyd. Nid oedd asiantaethau eraill bob amser yn deall nac yn gwerthfawrogi rôl rheolwyr troseddwyr.

Nid oedd cyfraniad Ymddiriedolaethau Prawf i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn effeithiol bob amser ac nid oedd y bwrdd yn archwilio'r cyfraniad nac yn ei herio. Roedd data canlyniadau i Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn canolbwyntio ar brosesau gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, ac nid oeddent yn annog archwiliad o effaith cydweithio er mwyn gwella canlyniadau.

Nid oedd canllawiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr i'r Ymddiriedolaethau Prawf wedi cael eu diweddaru i gynnwys *Working Together to Safeguard Children 2013*[1] na'r canllawiau cyfatebol sy'n berthnasol yng Nghymru.

### Gwaith gan Dimau Troseddwyr Ifanc er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc

Roedd gan Dimau Troseddwyr Ifanc systemau i wirio a oedd plant a phobl ifanc yn hysbys i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac roedd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud os oedd risg o niwed i blant a phobl ifanc yn cael ei nodi.

Roedd gwaith asesu a chynllunio wedi bod yn cael ei wneud gan staff Timau Troseddwyr Ifanc er mwyn helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc os oedd angen, ond nid oedd o ansawdd digonol bob amser. Nid oedd rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys fel mater o drefn ac nid oedd ymweliadau cartref yn cael eu gwneud yn gyson. Nid oedd gwybodaeth gan yr heddlu er mwyn helpu staff Timau Troseddwyr Ifanc i asesu a chynllunio yn cael ei darllen na'i defnyddio bob amser.

Nid oedd archwiliadau sgrinio i asesu pa mor agored i niwed oedd plant a phobl ifanc yn dod â'r holl ffactorau a nodwyd yn yr asesiad at ei gilydd, ac nid oedd cynlluniau rheoli pa mor agored i niwed oedd plant a phobl ifanc yn canolbwyntio ar weithredu, yn cyfeirio at rieni/gofalwyr nac ychwaith yn cael eu hintegreiddio â chynlluniau amddiffyn plant. Nid oedd llawer o waith asesu a chynllunio ar y cyd ac nid oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant bob amser yn hwyluso dulliau da o rannu gwybodaeth nac yn annog cydweithio.

Er hyn, roedd rhywfaint o waith uniongyrchol rhagorol a llawn dychymyg gan Dimau Troseddwyr Ifanc gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr a rhywfaint o waith partneriaeth da. Roedd gwaith i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddatblygu.

Roedd systemau ar gyfer goruchwyliaeth weithredol gan reolwyr wedi'u sefydlu ond nid oeddent yn effeithiol bob amser. O safbwynt strategol, nid oedd cysylltiadau effeithiol rhwng Byrddau Lleol Diogelu Plant a Byrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc wedi'u sefydlu.

## Casgliad

Er bod systemau wedi'u sefydlu er mwyn nodi plant a phobl ifanc yr oedd troseddwyr sy'n oedolion yn achosi risg iddynt, roedd gwaith Ymddiriedolaethau Prawf yn troi o amgylch prosesau yn bennaf. Nid oedd rheolwyr troseddwyr, rheolwyr gweithredol a strategol y gwasanaethau prawf na staff asiantaethau eraill, yn enwedig gwasanaethau

☐

[1] *Working Together to Safeguard Children A guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children,* Mawrth 2013, Yr Adran Addysg

gofal cymdeithasol plant, bob amser yn deall yn iawn beth oedd rôl gwasanaethau prawf a'u cyfraniad i'r gwaith o amddiffyn plant a phobl ifanc. Yn aml iawn roedd gwaith wedi'i gyfyngu i rannu gwybodaeth yn hytrach nag ymyriadau effeithiol ar y cyd a gallai hyn olygu nad oedd plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu'n llawn.

Roedd gan Dimau Troseddwyr Ifanc hefyd systemau er mwyn nodi plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o niwed, asesu pa mor agored i niwed oeddent a chynllunio er mwyn eu hamddiffyn os oedd angen, er bod yr ansawdd yn amrywio. Er bod rhywfaint o waith uniongyrchol rhagorol gyda phlant a phobl ifanc, roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar ei ben ei hun weithiau ac nid fel rhan o ymateb cydlynol, amlasiantaeth, ac unwaith eto gallai hyn adael bylchau yn y broses amddiffyn.

Nid oedd y brif asiantaeth ar gyfer amddiffyn plant a phobl ifanc, gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, bob amser yn hwyluso nac yn annog cydweithio effeithiol.

## Argymhellion

**Dylai Prif Swyddog Gweithredol y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:**

- lunio canllawiau manwl ar rolau a chyfrifoldebau staff yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol newydd sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a phobl ifanc
- sicrhau bod y staff i gyd yn deall beth yw eu cyfraniad hwy i waith amddiffyn plant a phobl ifanc, yn enwedig plant a phobl ifanc y mae effaith emosiynol gweld trais domestig yn achosi risg iddynt.

**Dylai'r Cyfarwyddwr Prawf a Gwasanaethau ar Gontract, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru a Phrif Weithredwyr y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol:**

- sicrhau bod staff yn gweithio **gydag** asiantaethau perthnasol eraill i asesu, cynllunio ac ymyrryd er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc
- sefydlu prosesau er mwyn rheoli gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc yn effeithiol a sicrhau ei ansawdd
- dangos effaith gadarnhaol ar waith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag oedolion sy'n achosi risg o niwed iddynt.

**Dylai rheolwyr Timau Troseddwyr Ifanc:**

- sicrhau bod staff yn gweithio **gydag** asiantaethau perthnasol eraill i asesu, cynllunio ac ymyrryd er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc
- cynnwys rhieni/gofalwyr lle bo'n briodol yn y gwaith o amddiffyn plant a phobl ifanc
- sicrhau bod gwybodaeth yr heddlu'n cael ei defnyddio'n effeithiol mewn gwaith ar y cyd i amddiffyn plant a phobl ifanc
- dangos gwelliant mewn canlyniadau diogelu i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu drwy eu cyfraniad i waith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

**Dylai cynrychiolwyr y gwasanaethau prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant weithio gydag aelodau eraill y bwrdd er mwyn:**

- sicrhau bod trefniadau amlasiantaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gweithio'n effeithiol ac yn gyson
- sefydlu a monitro data canlyniadau sy'n dangos **cydweithio** effeithiol er mwyn diogelu plant a phobl ifanc
- hybu gwell dealltwriaeth ymhlith staff gofal cymdeithasol o rolau a chyfrifoldebau staff y gwasanaeth prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc.

# 1. Cwmpas a Phwrpas

**Crynodeb**

Mae'r bennod hon yn egluro cefndir yr arolygiad, ac yn rhoi crynodeb o'r fframwaith deddfwriaethol a'r cyfarwyddyd ymarfer sy'n berthnasol i waith er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc mewn Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc. Mae'n nodi sut y datblygwyd strwythur a methodoleg yr arolygiad, ac yn rhoi gwybodaeth am y bobl a gyfwelwyd gennym a phroffil o'r achosion a arolygwyd gennym.

**Ffeithiau allweddol**

- Sbardunwyd yr arolygiad hwn gan ganfyddiadau ein rhaglenni arolygu prif ffrwd ar gyfer Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc, a'r cynlluniau peilot ar gyfer cydarolygiad o'r trefniadau amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn plant ar ddechrau 2013 dan arweiniad Ofsted. Roedd popeth yn awgrymu nad oedd safon y gwaith hwn yn ddigonol bob amser.
- Arolygasom achosion a oedd yn cael eu dal gan Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc oedd yn cynnwys elfen o amddiffyn plant. Gwnaethom hefyd archwilio atgyfeiriadau a gafodd eu gwneud gan y ddwy asiantaeth i wasanaethau gofal cymdeithasol plant.
- Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyfraniad Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc tuag at amddiffyn plant a phobl ifanc i'w weld yn *Working Together to Safeguard Children 2013* a'r canllawiau cyfatebol sy'n berthnasol yng Nghymru.
- Mae canllawiau gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) i'w gweld yn *Safeguarding Children – Checklist for Offender Managers*[2] a gyhoeddwyd yn 2009 gan Uned Amddiffyn y Cyhoedd.
- Mae canllawiau gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer asesu pa mor agored i niwed yw plant a phobl ifanc i'w gweld yn *Case Management Guidance*[3] a *National Standards 2013.*[4]

**Cefndir yr arolygiad**

1.1. Parodd canfyddiadau rhaglen arolygu troseddwyr ifanc Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a fu'n weithredol am dair blynedd tan 2012 inni deimlo bod angen ymchwilio ymhellach i'r maes gwaith hwn. Yn yr Arolygiad Achosion Craidd o waith gyda throseddwyr ifanc, gwelsom at ei gilydd fod traean o'r gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc o ansawdd annigonol. Hyd yn hyn, o'r prosesau Sgrinio Ansawdd Byr a'r Cydarolygiadau Llawn dan y rhaglen bresennol ar gyfer gwaith gyda throseddwyr ifanc, rydym wedi canfod nad yw hyn wedi newid.

☐

2 *Safeguarding Children – Checklist for Offender Managers* Uned Amddiffyn y Cyhoedd NOMS 2009

3 *Case Management Guidance* Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2013

4 *National Standards for Youth Justice Services* Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid 2013

1.2. Yn ein rhaglen Arolygu Rheoli Troseddwyr, a oedd yn ymwneud â gwaith gyda throseddwyr sy'n oedolion ac yn asesu ansawdd gwaith a gyflawnwyd gan Ymddiriedolaethau Prawf, gwelsom nad oedd y perygl o niwed i blant a phobl ifanc wedi cael ei adlewyrchu'n gywir yn yr asesiad mewn un o bob pump achos. Mewn bron i un o bob tri achos ni welwyd cyfraniad effeithiol gan y gwasanaeth prawf tuag at drefniadau amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn plant a dim ond â hanner yr achosion a oedd yn ymwneud â materion diogelu plant y bu rheolwyr yn ymwneud.

1.3. Ym mis Mehefin 2010, comisiynodd yr Ysgrifennydd Addysg adolygiad annibynnol o'r system amddiffyn plant yn Lloegr, dan arweiniad yr Athro Eileen Munro. Cyhoeddodd Adolygiad Munro o Amddiffyn Plant[5] ei adroddiad terfynol ym mis Mai 2011 a gwnaeth 15 o argymhellion i'r Llywodraeth gan gynnwys fframwaith arolygu diwygiedig ar gyfer amddiffyn plant a phobl ifanc. Yn dilyn hyn, cyflwynodd Ofsted fframwaith ar gyfer arolygu trefniadau amlasiantaeth ar gyfer amddiffyn plant a chynhaliwyd tri arolygiad peilot yn Rhagfyr 2012, ac yn Ionawr a Chwefror 2013.

1.4. Bu Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn ymwneud cryn dipyn â'r arolygiadau peilot gan edrych yn benodol ar gyfraniadau Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc. Ar ôl gohirio lansiad y brif raglen arolygiadau penderfynasom y dylem gynnal arolygiad thematig o arferion amddiffyn plant mewn chwe Ymddiriedolaeth Prawf a Thîm Troseddwyr Ifanc.

## Y fframwaith deddfwriaethol a chanllawiau

1.5. Dan *Ddeddf Plant 1989 (diwygiwyd yn 2004)*[6] mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddiogelu a hyrwyddo lles plant; cyflawnir y dyletswyddau hyn drwy wasanaethau gofal cymdeithasol plant awdurdodau lleol ac mae gan asiantaethau eraill ddyletswydd i gydweithredu.

1.6. Mae Cymru a Lloegr yn rhannu deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â lles plant a phobl ifanc a'u hamddiffyn, ond er bod y canllawiau'n debyg maent yn cael eu mynegi ychydig yn wahanol yng Nghymru.

1.7. Mae canllawiau *Working Together to Safeguard Children 2013* yn nodi'r gofynion deddfwriaethol a'r hyn a ddisgwylir gan wasanaethau unigol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

> *'Local agencies should have in place effective ways to identify emerging problems and potential unmet needs for individual children and families. Once identified children's social care services should assess the needs of children and where a child and family would benefit from coordinated support from more than one agency (e.g. education, health, housing, police) there should be an inter-agency assessment. These early help assessments, such as the use of the Common*

[5] *The Munro Review of Child Protection: Final Report* Yr Adran Addysg 2011

[6] *Deddf Plant 1989 (Diwygiwyd 2004)* Llywodraeth Ei Mawrhydi

*Assessment Framework (CAF), should identify what help the child and family require to prevent needs escalating to a point where intervention would be needed via a statutory assessment under the Children Act 1989 (2004).'*

*'Where there are more complex needs, help may be provided under section 17 of the Children Act 1989 (children in need). Where there are child protection concerns (reasonable cause to suspect a child is suffering or likely to suffer significant harm) local authority social care services must make enquiries and decide if any action must be taken under section 47 of the Children Act 1989.'*

1.8. Teitl y canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yw *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.*[7]

1.9. Yn dilyn asesiad(au) cychwynnol bydd y penderfyniad i lunio cynllun amddiffyn ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn cael ei wneud mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Bydd cynllun yn cael ei lunio a dewisir grŵp craidd o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn er mwyn rhoi'r cynllun ar waith.

1.10. Rhaid i Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc gydymffurfio ag Adran 11 o *Ddeddf Plant 2004* sy'n rhoi'r ddyletswydd a ganlyn arnynt:

*'To ensure their functions, and any services that they contract out to others, are discharged having regard to the need to safeguard and promote the welfare of children'.*

Mae *Working Together to Safeguard Children 2013* yn cynnwys y disgrifiad isod o Ymddiriedolaethau Prawf:

*'Primarily responsible for providing reports for courts and working with adult offenders both in the community and in the transition from custody to community to reduce their reoffending. They are, therefore, well placed to identify offenders who pose a risk of harm to children as well as children who may be at heightened risk of involvement in (or exposure to) criminal or anti-social behaviour and of other poor outcomes due to the offending behaviour of their parent/carer(s).'*

A disgrifir eu tasg fel a ganlyn:

*'Where an adult offender is assessed as presenting a risk of serious harm to children, the offender manager should develop a risk management plan and supervision plan that contains a specific objective to manage and reduce the risk of harm to children.'*

*'In preparing a sentence plan, offender managers should consider how planned interventions might bear on parental responsibilities and whether the planned interventions could contribute to improved outcomes for children known to be in an existing relationship with the offender.'*

☐

[7] *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007

1.11. Cyhoeddwyd canllawiau gan NOMS ar waith prawf i amddiffyn plant a phobl ifanc yn 2009. Er mwyn cyflawni eu dyletswyddau dylai rheolwyr troseddwyr:

- gynnal asesiadau o'r perygl o niwed a achosir i blant a phobl ifanc
- cyfeirio at wasanaethau gofal cymdeithasol plant lle bo angen
- gweithredu cynlluniau i amddiffyn y rhai hynny y nodir eu bod mewn perygl rhag y troseddwr
- gweithio mewn cysylltiad uniongyrchol â'r troseddwr er mwyn lleihau'r perygl o niwed y mae'n ei achosi ac amddiffyn dioddefwyr neu ddarpar ddioddefwyr
- cyfrannu tuag at asesiadau a chynlluniau asiantaethau eraill
- cyfrannu a chydgysylltu eu gwaith gydag asiantaethau eraill er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc
- rhannu gwybodaeth berthnasol

1.12. Ym mis Mehefin 2014 disodlwyd yr Ymddiriedolaethau Prawf gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Bydd gofynion *Working Together to Safeguard Children 2013* yn berthnasol i'r sefydliadau newydd.

1.13. Mae *Working Together to Safeguard Children 2013* yn disgrifio Timau Troseddwyr Ifanc fel a ganlyn:

> *'Responsible for the supervision of children and young people subject to pre-court interventions and statutory court disposals. They are therefore well placed to identify children known to relevant organisations as being most at risk of offending and to undertake work to prevent them offending. YOTs should have a lead officer responsible for ensuring safeguarding is at the forefront of their business.'*

1.14. Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn gweithio mewn cysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc felly efallai y bydd rôl rheolwyr achosion wedi'i hintegreiddio'n fwy â gwasanaethau gofal cymdeithasol ehangach ar gyfer plant. Er mwyn cyflawni eu dyletswyddau mae rheolwyr achosion (a/neu weithwyr eraill Timau Troseddwyr Ifanc) yn:

- asesu pa mor agored i niwed yw plant a phobl ifanc ac yn asesu'r angen i'w diogelu
- cyfeirio at wasanaethau gofal cymdeithasol plant os oes angen
- rhoi cynlluniau i amddiffyn plant a phobl ifanc ar waith
- gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn bersonol a'u rhieni/gofalwyr er mwyn eu hamddiffyn
- cyfrannu tuag at asesiadau a chynlluniau asiantaethau eraill
- cyfrannu a chydgysylltu eu gwaith ag asiantaethau eraill
- rhannu gwybodaeth berthnasol

1.15. Mae swyddogion yr heddlu'n cael eu secondio i weithio gyda Thimau Troseddwyr Ifanc ac maent yn aelodau hanfodol o'r staff. Mae eu rôl yn amrywio a chafodd ei hadolygu yn 2010[8] gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a argymhellodd y dylent gael rôl 'estynedig' a ddylai, yn fwyaf penodol, gynnwys defnyddio a rhannu gwybodaeth. Ym mis Mehefin 2014 cyhoeddodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ganllawiau wedi'u diweddaru ar y pwnc hwn.

☐

[8] *http://www.justice.gov.uk/downloads/youth-justice/monitoring-performance/yot-management-board-guidance-consultation/yot-police-officer-role.pdf*

1.16. Yn bwysicach na dim, mae *Working Together to Safeguard Children 2013* yn nodi'n glir bod angen i waith er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc gael ei wneud ar y cyd:

> *'Ultimately, effective safeguarding of children can only be achieved by putting children at the centre of the system, and by every individual and agency playing their full part, working together to meet the needs of our most vulnerable children.'*

1.17. Sefydlwyd Byrddau Lleol Diogelu Plant gan *Ddeddf Plant 2004* a roddodd ddyletswydd statudol ar bob ardal i sefydlu bwrdd. Mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn dod ag asiantaethau at ei gilydd, gan gynnwys Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc. Byrddau yw'r prif fecanwaith lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc. Dylai aelodau partneriaeth Bwrdd Lleol Diogelu Plant gydweithio, galw'r naill a'r llall i gyfrif a sicrhau bod diogelu plant a phobl ifanc yn dal yn uchel ar yr agenda yn eu hardal.

## Cwmpas a methodoleg

1.18. Pwrpas yr arolygiad oedd asesu effeithiolrwydd gwaith Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc wrth iddynt gyfrannu tuag at amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niwed. Yn fwyaf penodol, roedd arnom eisiau asesu:

- a oedd yr Ymddiriedolaeth Prawf/Tîm Troseddwyr Ifanc yn nodi plant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o niwed, yn gwneud yr asesiadau a'r atgyfeiriadau priodol ac yn gweithredu os oedd angen
- ansawdd ac amseriad cyfeiriadau at wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac ansawdd ac amseriad yr ymateb gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant
- ansawdd y cyfraniad sy'n cael ei wneud gan Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc
- y gwaith gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant er mwyn hyrwyddo cydweithio effeithiol gyda phlant a phobl ifanc a oedd â chynlluniau amddiffyn ffurfiol ac a oedd yn cael eu goruchwylio gan Dîm Troseddwyr Ifanc neu a oedd yn gysylltiedig â throseddwr y gwyddai'r Ymddiriedolaethau Prawf amdano
- effeithiolrwydd goruchwyliaeth weithredol achosion yn ymwneud ag amddiffyn plant a phobl ifanc, y trefniadau arwain a rheoli a'r dull strategol o reoli gweithdrefnau amddiffyn plant a gweithio mewn partneriaeth.

1.19. Cynhaliwyd arolygiad peilot yn Nhîm Troseddwyr Ifanc Swydd Derby ac Ymddiriedolaeth Prawf Swydd Derby i brofi'r fethodoleg ym mis Gorffennaf 2013.

1.20. Cwblhawyd gwaith maes yr arolygiad rhwng Medi a Thachwedd 2013 mewn Timau Troseddwyr Ifanc a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yng: Nghaerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf, Bromley, Calderdale, Sir y Fflint, Dinas Nottingham a Reading; a'r Ymddiriedolaethau Prawf a'r Heddluoedd cyfatebol yn

Avon a Gwlad yr Haf, Llundain, Swydd Nottingham, Gogledd Cymru, Dyffryn Tafwys a Gorllewin Swydd Efrog.

1.21. Gwnaethom benderfyniadau ar sail meini prawf a oedd yn cynnwys y canlynol:

- nodi materion amddiffyn plant
- asesu
- cyfeirio at asiantaethau perthnasol
- camau a gymerwyd er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc
- rhannu gwybodaeth
- gwaith ar y cyd ag asiantaethau eraill cysylltiedig
- goruchwyliaeth weithredol y rheolwyr o ymarfer
- cyfraniad arweiniad a rheolaeth tuag at amddiffyn plant a phobl ifanc.

1.22. Er mwyn asesu a oedd plant a phobl ifanc a allai fod mewn perygl o niwed wedi cael eu nodi ac a oedd camau priodol wedi'u cymryd, archwiliasom 58 o achosion yn cael eu dal gan Ymddiriedolaethau Prawf ac 83 o achosion yn cael eu dal gan Dimau Troseddwyr Ifanc a oedd wedi cychwyn yn ystod y cyfnod o dri mis cyn yr arolygiad.

1.23. Er mwyn asesu cyfraniad yr Ymddiriedolaethau Prawf/Timau Troseddwyr Ifanc i waith amddiffyn plant gwnaethom asesu 42 o achosion Ymddiriedolaethau Prawf a 36 o achosion Timau Troseddwyr Ifanc lle'r oedd cynllun amddiffyn plentyn wedi bod yn cael ei weithredu ar ryw adeg yn ystod y gorchymyn.

1.24. Gwnaethom hefyd asesu 48 o gyfeiriadau at wasanaethau gofal cymdeithasol plant a wnaethpwyd gan Ymddiriedolaethau Prawf a 37 a wnaethpwyd gan Dimau Troseddwyr Ifanc er mwyn asesu ansawdd ac amseriad atgyfeiriadau ac ansawdd ac amseriad yr ymateb.

1.25. Os oedd y plant neu'r bobl ifanc yn ein sampl arolygu hefyd yn hysbys i wasanaethau gofal cymdeithasol plant, archwiliodd arolygwyr o Ofsted, ac AGGCC (yng Nghymru), ffeiliau achosion er mwyn asesu gwaith gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant i hyrwyddo cydweithio effeithiol. Adolygodd arolygwyr Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi gofnodion yr heddlu er mwyn asesu rhannu gwybodaeth a chydweithio gan swyddogion yr heddlu.

1.26. Cyfwelsom reolwyr gweithredol a strategol ac aelodau Byrddau Lleol Diogelu Plant ac edrychasom ar gofnodion cyfarfodydd, polisïau a gweithdrefnau, data perfformiad, cofnodion hyfforddiant a gwybodaeth berthnasol arall a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc.

## 2. Gwaith gan Ymddiriedolaethau Prawf er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc


**Crynodeb**

Mae'r bennod hon yn disgrifio gwaith Ymddiriedolaethau Prawf gyda throseddwyr sy'n achosi perygl o niwed i blant a phobl ifanc (neu a allai fod mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc y mae angen eu hamddiffyn) a'u cyfraniad tuag at y gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd er mwyn eu hamddiffyn. Mae'n cynnwys nodi, asesu, cynllunio a gweithredu er mwyn amddiffyn, yn ogystal â rhannu gwybodaeth a goruchwyliaeth y rheolwyr. Mae hefyd yn gwerthuso pa mor dda y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi hwyluso cydweithio.


**Canfyddiadau allweddol**

- Roedd prosesau wedi'u sefydlu er mwyn nodi plant a phobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â throseddwyr ac roedd gwiriadau'n cael eu gwneud gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, ond nid oedd y prosesau a'r systemau hyn bob amser yn gadarn nac yn gynhwysfawr.
- Nid oedd pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant yn cael eu nodi gan staff prawf bob amser.
- Yn aml iawn nid oedd cyfeiriadau at wasanaethau gofal cymdeithasol plant, mewn achosion lle cydnabyddid bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o niwed, yn cynnwys llawer o fanylion, ac roedd y systemau er mwyn cofnodi a mynd ar ôl ymatebion i atgyfeiriadau yn wael.
- Nid oedd gwaith asesu neu gynllunio ar y cyd ag asiantaethau eraill mewn perthynas â materion amddiffyn plant.
- Roedd ansawdd gwaith prawf er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol Ymddiriedolaethau Prawf, ac mewn Ymddiriedolaethau Prawf unigol, ac yn aml iawn nid oedd y staff yn siŵr iawn beth oedd eu rôl.
- Nid oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant bob amser yn hwyluso trefniadau rhannu gwybodaeth da a/neu gydweithio ac nid oedd cadeiryddion cyfarfodydd amddiffyn plant amlasiantaeth yn annog cydweithio bob amser.
- Nid oedd goruchwyliaeth y rheolwyr o'r maes gwaith hwn yn systematig nac yn effeithiol bob amser.

### Nodi plant a phobl ifanc a allai fod mewn perygl oherwydd troseddwr

2.1. Gall y cysylltiad cyntaf rhwng staff prawf a throseddwyr ddigwydd yn ystod gwahanol rannau o'r broses cyfiawnder troseddol. Bydd rheolwr troseddwyr yn cyfarfod y troseddwr yn y cam cyn dedfrydu os yw'r llys yn gofyn am adroddiad cyn dedfrydu. Neu, efallai na fydd llawer iawn o gysylltiad tan ar ôl i'r troseddwr gael ei ddedfrydu neu pan fydd yn cael ei ryddhau o'r ddalfa. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl na fydd llawer iawn o wybodaeth am y troseddwr. O ganlyniad, dylai rheolwyr troseddwyr ofyn i droseddwyr, cyn gynted ag y bo modd, a ydynt mewn cysylltiad, neu a ydynt yn debygol o fod mewn cysylltiad, â phlant

neu bobl ifanc. Dylent wedyn gysylltu â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i wneud ymholiadau, er mwyn cadarnhau'r wybodaeth a gweld a oes unrhyw wybodaeth am blant neu bobl ifanc sydd wedi cael ei nodi. Os yw'r troseddwr yn ymwneud â phlant neu bobl ifanc, dylid gwneud asesiad er mwyn canfod a yw'n achosi perygl o niwed iddynt. Dylid rhoi cynlluniau ar waith er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc os oes angen, rhannu gwybodaeth, a gwneud cyfraniad priodol i waith asiantaethau eraill.

2.2. Er mwyn ein galluogi i ganfod a oedd Ymddiriedolaethau Prawf yn gwneud gwiriadau cychwynnol digonol ynglŷn â chysylltiad troseddwr â phlant neu bobl ifanc, arolygasom 58 o achosion wedi'u dewis ar hap a agorwyd yn ystod y tri mis cyn gwaith maes yr arolygiad. Roeddem yn ceisio gweld:

- a oedd y rheolwr troseddwyr wedi gwirio a oedd troseddwr yn dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc yn rheolaidd neu a oedd yn gwneud cais am gysylltiad ac, mewn achos o'r fath, bod y manylion llawn wedi'u casglu (enwau, cyfeiriadau a dyddiadau geni) a gwiriadau wedi'u gwneud gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant
- a oedd yr hysbysiad angenrheidiol ynglŷn â rhan y gwasanaeth prawf yn cael ei gyfathrebu yn yr achosion hynny yr oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn ymwneud â hwy
- bod cyfeiriadau'n cael eu gwneud at wasanaethau gofal cymdeithasol plant pan oedd hynny'n briodol
- bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc.

2.3. Roedd yr Ymddiriedolaethau a arolygwyd gennym yn amrywio'n fawr o ran eu gweithdrefnau cychwynnol i sgrinio troseddwyr, nodi plant a phobl ifanc, gwneud gwiriadau a chymryd camau os oedd angen. Roedd rhai'n defnyddio'r hyn y cyfeirid ato fel gwiriadau 'oedolyn hysbys' lle'r oeddent yn anfon enw a chyfeiriad pob troseddwr at wasanaethau gofal cymdeithasol plant. Ni allem fod yn dawel ein meddwl bod hon yn system gadarn bob amser gan fod gwasanaethau gofal cymdeithasol plant at ei gilydd yn storio data ar sail enw'r plentyn neu'r person ifanc yn hytrach nag enw'r oedolyn. Roedd hi'n bosibl felly y byddai Ymddiriedolaethau Prawf (a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant cyfatebol) yn meddwl eu bod wedi rhannu gwybodaeth, ond nad oeddent wedi gwneud hynny mewn gwirionedd.

2.4. Roedd Ymddiriedolaethau eraill yn gwneud ymholiadau dim ond pan oedd troseddwyr yn datgelu eu bod yn dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc; roedd enwau'r plant neu'r bobl ifanc a oedd yn cael eu nodi gan y troseddwr yn cael eu gwirio yn dilyn hynny. Roedd rhai Ymddiriedolaethau'n gwirio yn y cam adroddiad cyn dedfrydu tra'r oedd eraill yn gwirio pan oedd gorchymyn llys yn dechrau. Yn Swydd Nottingham, roeddem yn falch o weld bod y weithdrefn yn ymestyn i ragor o wiriadau dilynol os oedd rhywbeth o bwys wedi digwydd yn ystod y gorchymyn.

2.5. Mewn rhai lleoedd, y gweinyddwyr oedd yn gyfrifol am wiriadau cychwynnol, ond mewn lleoedd eraill roedd y gwiriadau'n cael eu gwneud gan reolwyr troseddwyr. Yn Llundain, yn swyddfa Southwark, roedd modd defnyddio'r gronfa ddata gofal cymdeithasol plant i wneud gwiriadau uniongyrchol.

2.6. Nid oedd gan bob gwasanaeth gofal cymdeithasol plant gyfeiriadau ebost diogel ac roedd hynny weithiau'n amharu ar y broses o gyfathrebu gydag Ymddiriedolaethau Prawf a throsglwyddo manylion llawn. Roedd rhai prosesau'n wan yn eu hanfod. Er enghraifft, lle'r oedd yr Ymddiriedolaeth Prawf yn gofyn am ymateb **dim ond** os oedd yr enwau'n hysbys i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Ni allai'r Ymddiriedolaeth ddweud a oedd diffyg ymateb yn golygu nad oedd yr enw'n hysbys ynteu nad oedd yr ymholiad wedi'i wneud.

2.7. Roedd rhai Ymddiriedolaethau wedi ymdrechu i gryfhau eu prosesau. Roedd Ymddiriedolaeth Prawf Llundain yn defnyddio rhestr wirio i gael manylion unrhyw gysylltiad â phlant a phobl ifanc yn y cam adroddiad cyn dedfrydu. Roedd y gwiriad dilynol gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, a oedd yn cael ei gynnwys yn yr un ddogfen, hefyd yn hysbysu bod y gwasanaethau prawf yn ymwneud â'r achos (Atodiad 4).

2.8. Roedd enwau wedi'u camsillafu mewn mwy nag un Ymddiriedolaeth ac roedd posibilrwydd y byddai gwybodaeth yn cael ei cholli. Mewn un Ymddiriedolaeth gwelsom gyfeiriadau at yr un plentyn mewn cofnodion prawf dan dri enw cyntaf tebyg ond gwahanol.

2.9. O'r achosion a arolygwyd gennym, roedd ymholiadau digonol ynglŷn â pherthnasoedd neu ymwneud â phlant a phobl ifanc wedi cael eu gwneud mewn ychydig dros eu hanner (er bod y cyfrannau lle'r oedd ymholiadau wedi cael eu gwneud yn uwch yn Sir y Fflint ac yn Llundain). Yng ngweddill yr achosion, nid oedd rheolwyr troseddwyr wedi gwneud digon o ymholiadau i ganfod a oedd troseddwr yn ymwneud â phlant a phobl ifanc.

2.10. Lle'r oedd cwestiynau i'r troseddwr wedi datgelu cysylltiad neu berthynas â phlentyn neu berson ifanc, nid oedd ymholiadau dilynol i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi cael eu gwneud ym mhob achos ac mewn dwy o'r Ymddiriedolaethau, nid oedd unrhyw dystiolaeth o gwbl bod ymholiadau wedi cael eu gwneud. Roedd diffyg tryloywder mewn rhai achosion. Er enghraifft, datgelodd merch fod ganddi bedwar o blant, dywedodd fod pob un yng ngofal yr awdurdod lleol ac nad oedd yn cael unrhyw gysylltiad â hwy. Ni chysylltwyd â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i gadarnhau hyn.

2.11. Lle datgelodd ymholiadau fod gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn gweithio gyda'r plant neu'r bobl ifanc, nid oedd y rheolwr troseddwyr wedi anfon hysbysiad ynglŷn â rhan y gwasanaethau prawf mewn bron i hanner yr achosion perthnasol.

2.12. Ar y llaw arall, roedd enghreifftiau o ymarfer da lle'r oedd rheolwyr troseddwyr wedi dangos chwilfrydedd proffesiynol priodol ac wedi gwneud gwiriadau ychwanegol. Yn Avon a Gwlad yr Haf gwelsom achos lle'r oedd nifer o atgyfeiriadau blaenorol wedi cael eu gwneud gan wahanol asiantaethau mewn cysylltiad â theulu ond dim camau wedi'u cymryd. Rhannodd y rheolwr troseddwyr wybodaeth ynglŷn â defnydd y troseddwr o gyffuriau yn dilyn hyn a gweithiodd ar y cyd â gofal cymdeithasol plant er mwyn sicrhau bod cyfarfod strategaeth yn cael ei drefnu. Lluniwyd cynllun amddiffyn ar gyfer y plant yn y diwedd. Yn Nottingham gwelsom hefyd reolwr troseddwyr yn gwneud gwiriadau trylwyr i gefndir troseddwr a oedd wedi cael gorchymyn cymunedol â gofyniad gwaith di-dâl yn unig.

**Enghraifft o ymarfer da: gwiriadau cychwynnol â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant**

Roedd gan Mr Yousef hanes o drais, meddwdod a dwyn. Roedd wedi cael ei ddyfarnu'n euog o ddwyn. Canfu'r rheolwr troseddwyr fod ganddo ddau o blant bach a oedd yn byw gyda'i gynbartner. Datgelodd gwiriadau fod yr heddlu wedi cael eu galw i'w chartref hi yn dilyn honiadau o drais yn y cartref a bod y plant yn hysbys i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Yn dilyn hyn hysbyswyd y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant bod y gwasanaethau prawf yn ymwneud â'r achos a gwnaethpwyd asesiad llawn o'r perygl i'r plant.

**Ymddiriedolaeth Prawf Swydd Nottingham**

2.13. Nid oedd gwiriadau gyda'r heddlu wedi cael eu gwneud mewn traean o'r achosion perthnasol, er enghraifft achosion trais domestig. Unwaith eto, roedd hyn yn cuddio amrywiadau pendant rhwng y gwahanol ymddiriedolaethau – yn Nyffryn Tafwys ac Avon a Gwlad yr Haf roedd gwiriadau heddlu wedi cael eu gwneud ym mhob achos.

2.14. Yn yr achosion hynny lle daethom i'r casgliad bod materion yn ymwneud ag amddiffyn plant yn bodoli, nid oeddent wedi cael eu cydnabod o gwbl mewn mwy na thraean o'r achosion a ddewiswyd ar hap, ac allan o wyth a ddylai fod wedi cael eu dwyn i sylw'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, roedd pump heb gael eu dwyn i'w sylw. Mewn nifer fach o achosion lle'r oedd risgiau yn ymwneud ag amddiffyn plant a phobl ifanc a oedd wedi'u nodi yn hysbys, nid oedd risgiau i blant a phobl ifanc eraill wedi cael eu hystyried. Lle nad oedd plant neu bobl ifanc wedi cael eu nodi yn y cam hwn, neu lle nad oedd risgiau iddynt wedi cael eu cydnabod, yn anaml iawn y llwyddodd adolygiadau dilynol o'r achos i gywiro'r sefyllfa.

**Plant a phobl ifanc oedd â chynlluniau amddiffyn yn barod**

2.15. Gofynasom i Ymddiriedolaethau Prawf nodi achosion lle'r oedd gan y troseddwr ryw fath o gysylltiad â phlentyn neu berson ifanc a oedd â chynllun. Er enghraifft, efallai ei fod yn dad i'r plentyn neu'n bartner i rywun oedd â phlant â chynllun amddiffyn. Yn yr achosion hyn roeddem yn awyddus i weld a oedd yr Ymddiriedolaeth Prawf wedi gwneud cyfraniad priodol er mwyn amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc.

2.16. Roedd y ffaith fod y gwaith o nodi'r achosion hyn yn anghywir mewn rhai Ymddiriedolaethau ac yn anodd yn y rhan fwyaf yn achos pryder. Nid oedd arwyddion rhybudd yn ymwneud ag amddiffyn plant ar nDelius (cronfa ddata genedlaethol y gwasanaeth prawf) yn cael eu defnyddio'n gywir nac yn gyson bob amser, hyd yn oed yn yr Ymddiriedolaethau eu hunain. Ni allai'r holl drefniadau wahaniaethu'n gywir rhwng troseddwyr a oedd yn achosi perygl o niwed i blant a phobl ifanc 'amhenodol', a'r rhai a oedd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc hysbys oedd â chynllun amddiffyn.

2.17. Mae cynllun amddiffyn yn cael ei lunio ar gyfer plant a phobl ifanc am resymau amrywiol. Nid y troseddwr yw'r prif reswm dros y cynllun bob amser ac nid y troseddwr yw'r person sy'n achosi perygl o niwed i'r plentyn neu'r person ifanc bob amser; mewn rhai achosion, gallai'r troseddwr fod yn helpu i amddiffyn y plentyn

neu'r person ifanc rhag peryglon o ffynonellau eraill. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd gennym (90%), roedd y troseddwr yn achosi perygl o niwed i'r plentyn neu'r person ifanc a nodwyd ac, mewn un o bob tri o'r achosion hynny, roedd hefyd yn achosi perygl o niwed i blant a phobl ifanc eraill. Gwelsom nifer fach o achosion lle'r oedd y troseddwr yn cael ei ystyried yn ffactor amddiffynnol.

2.18. Yn yr achosion lle'r oedd gan droseddwr gysylltiad â phlentyn neu berson ifanc â chynllun amddiffyn, gwelsom fod ymchwiliadau i natur y berthynas wedi cael eu gwneud yn y rhan fwyaf o'r achosion a bod gwiriadau gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi cael eu gwneud mewn cyfran uchel. Nid oedd gwiriadau heddlu wedi cael eu gwneud bob amser, fodd bynnag, ac nid oedd hysbysiad yn egluro bod y gwasanaeth prawf yn ymwneud â'r achos wedi cael ei anfon bob tro. Lle'r oedd perygl o niwed i blant a phobl ifanc ar wahân i'r rhai a nodwyd, roedd nifer o enghreifftiau lle nad oedd camau priodol wedi cael eu cymryd.

**Asesu**

2.19. Mae rheolwyr troseddwyr yn gwneud dau asesiad, un o anghenion y troseddwr a'r ffactorau sy'n cyfrannu tuag at ei ymddygiad troseddol, a'r llall o'r perygl o niwed y mae'n ei achosi i eraill. Roedd ansawdd cyffredinol asesiadau mewn achosion a oedd yn gysylltiedig â chynlluniau amddiffyn plant yn annigonol. Roedd y diffyg rhannu gwybodaeth a chydweithio yn y cam hwn yn siomedig iawn. Mewn gormod o achosion, roedd y ddwy brif asiantaeth, gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a phrawf, yn cynnal asesiadau ar wahân. Gwelsom fod:

- 46% o'r asesiadau o anghenion sy'n gysylltiedig â throseddu ddim yn ystyried gwybodaeth gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant (roedd y sefyllfa'n llawer gwell yn Avon a Gwlad yr Haf)
- 62% o'r asesiadau o'r perygl o niwed sy'n cael ei achosi gan y troseddwr heb gael eu rhannu gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

Yn ein barn ni roedd hyn yn gadael bylchau mawr yn asesiadau'r ddwy asiantaeth.

2.20. Nid oedd rheolwyr troseddwyr bob amser yn gwneud defnydd effeithiol o'r System Asesu Troseddwyr (OASys) i'w helpu i gofnodi a/neu ddadansoddi strwythurau teuluol neu berthnasoedd cymhleth, er ein bod wedi gweld enghraifft o ymarfer da yn Nyffryn Tafwys:

**Enghraifft o ymarfer da: dyfyniad o asesiad (rhan o adran berthnasoedd OASys)**

*'Partner presennol Mr Garside yw DF. Nid yw'r cwpwl yn byw gyda'i gilydd.*

*Mae gan Mr Garside a'i gynbartner KB ddau blentyn, un yn dair oed a'r llall yn flwydd. Mae'r plant hyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd a'r bwriad yw cael rhywun i'w mabwysiadu.*

*Mr Garside sy'n gofalu am ei bedwar plentyn hŷn o'i berthynas flaenorol â'i gynbartner WT. Mae oedran y plant hyn yn amrywio o ddeuddeg i chwech. Mae gan bob un o'r plant gynllun amddiffyn dan y categori Esgeuluso (er 2010) ac mae Mr Garside yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a'r tîm Cyrion Gofal i geisio rhoi sylw i'r pryderon ynglŷn â'u lles. Mae hyn yn bwysau mawr ar Mr Garside, sy'n caru ei blant ond sy'n cael anhawster i ddiwallu eu hanghenion. Dechreuodd y gwasanaethau cymdeithasol ymwneud â'r achos yn dilyn nifer o ddigwyddiadau domestig rhwng Mr Garside a'i bartneriaid blaenorol, ac oherwydd pryder ynglŷn ag iechyd Mr Garside, lles y plant, ffordd o fyw'r teulu a'r bobl y maent yn dod i gysylltiad â hwy. Mae Mr Garside wedi cwblhau cwrs Rhianta Triphlyg ond mae pryder o hyd ynglŷn â lles y plant a gallu Mr Garside i ddiwallu eu hanghenion.*

*Mae Mr Garside yn hysbys i'r uned cam-drin domestig mewn cysylltiad â digwyddiadau yn dyddio o fis Chwefror 2013 yn ôl i 2003. Mae'r rhain yn cynnwys gwrthdaro â'i frodyr, ac ymddygiad difrïol tuag at DF, KB a WT. Ceir rhagor o fanylion yn yr asesiad o'r perygl o niwed.'*

**Ymddiriedolaeth Prawf Dyffryn Tafwys**

2.21. Mewn ychydig yn llai na hanner yr holl achosion a arolygwyd gennym nid oedd asesiad cywir o'r perygl o niwed a oedd yn cael ei achosi i blant a phobl ifanc a oedd wedi'u nodi. Roedd hyn yn peri cryn bryder gan mai'r troseddwr, yn y rhan fwyaf o'r achosion amddiffyn plant a arolygwyd gennym, oedd y rheswm dros y cynllun amddiffyn plentyn.

2.22. Roedd yr asesiad o'r perygl o niwed a oedd yn cael ei achosi i blant neu bobl ifanc a oedd yn gysylltiedig â rhywun a oedd wedi cyflawni trosedd cam-drin domestig yn aml yn gymysglyd. Roedd yn ymddangos bod rheolwyr troseddwyr yn deall y gallai hyn achosi niwed, ond nid oedd yn ymddangos eu bod yn gallu penderfynu beth yn union oedd y perygl o niwed mewn achos penodol. Yn aml iawn cyfeirid ato'n amhendant fel 'niwed seicolegol'. Roedd yn amlwg nad oedd rheolwyr troseddwyr yn siŵr bob amser pa berygl o niwed yr oedd y troseddwr yn ei achosi, os o gwbl. Roedd hyn yn wir hyd yn oed mewn achosion lle'r oeddent wedi categoreiddio'r lefel fel perygl canolig o niwed.

2.23. Unwaith eto, roedd y rheolwyr troseddwyr yn cwblhau'r OASys ond nid oeddent yn defnyddio'r offeryn asesu'n effeithiol i'w helpu i ganfod beth yn union oedd y perygl o niwed. O ganlyniad, roedd rhai asesiadau'n wael ac nid oeddent yn disgrifio'n ddigonol pa berygl y gallai'r troseddwr ei achosi i'r plentyn neu'r person ifanc na sut y gallai'r plentyn neu'r person ifanc gael ei niweidio drwy ddod i gysylltiad ag ef neu hi. Roedd rhai asesiadau'n cynnwys gwybodaeth anghyson fel y dengys yr enghraifft isod:

**Enghraifft o ymarfer: asesu risg**

Roedd cofnod yn nhestun yr asesiad o'r troseddwr fod mab Mr Querel yn hysbys i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol oherwydd pryder ynglŷn â'r ffaith ei fod dan ofal ei dad a oedd yn defnyddio cyffuriau a'i fod yn gweld trais. Roedd Mr Querel yn cael cysylltiad â'i fab. Yn yr adran asesu risg, fodd bynnag, roedd y rheolwr troseddwyr wedi ateb 'na' i'r cwestiynau 'A oes unrhyw bryder yn ymwneud â phlant?' ac 'A yw'r troseddwr yn achosi risg i blant y gellir eu nodi?'

2.24. Mewn nifer fach o achosion lle'r oedd gan blant neu bobl ifanc gynllun amddiffyn, gwelsom nad oedd rheolwyr troseddwyr wedi cwblhau asesiad risg o gwbl gan nodi'r rheswm fel *"plentyn/plant â chynllun amddiffyn."*

2.25. Pan oedd y drosedd yn erbyn plant neu bobl ifanc, roedd asesiadau o'r perygl o niwed a oedd yn cael ei achosi gan y troseddwr yn gliriach.

**Cynllunio er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc**

2.26. Roedd y gwaith tameidiog a welsom yng nghyswllt asesu yn anffodus i'w weld yng nghyswllt cynllunio hefyd. Yn aml iawn nid oedd cynlluniau amddiffyn plant (gwasanaethau gofal cymdeithasol plant) a chynlluniau rheoli risg (Ymddiriedolaethau Prawf) yn cael eu hintegreiddio na'u cysoni. Yn y rhan fwyaf o achosion nid oedd y cynllun amddiffyn plentyn yn ffeil y gwasanaeth prawf, ac nid oedd y rheolwr troseddwyr wedi'i weld nac yn gwybod beth oedd ynddo. Nid oedd copïau o gynlluniau rheoli risg Ymddiriedolaethau Prawf yn **unrhyw un** o'r ffeiliau gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a welsom. Roedd hyn yn golygu nad oedd gwybodaeth hanfodol am ddiogelu plant a phobl ifanc ar gael.

2.27. Ni welsom dystiolaeth bod staff gofal cymdeithasol plant yn disgwyl i asesiadau risg neu gynlluniau rheoli prawf gyfrannu tuag at gynllunio amddiffyn plant. Nid oedd gweithwyr cymdeithasol yn gofyn am asesiadau a/neu gynlluniau prawf nac yn eu defnyddio. Nid oedd dim i ddangos ychwaith bod gweithwyr cymdeithasol yn deall ystyr y categorïau perygl o niwed a ddefnyddid gan y gwasanaeth prawf na'u bod wedi ystyried sut y gallent rannu tasgau er mwyn gwella canlyniadau cynlluniau amddiffyn plant. Nid yw'n syndod felly nad oedd tystiolaeth o un asesiad risg wedi'i gynllunio ar y cyd, na dulliau cynllunio a rheoli ar y cyd. Prin iawn oedd y dystiolaeth yng nghofnodion cynadleddau achos bod cadeiryddion wedi cymryd unrhyw gamau i sicrhau dirnadaeth, asesiadau a/neu gynlluniau gan Ymddiriedolaethau Prawf. Ni welsom ychwaith unrhyw ymdrech i hyrwyddo cydweithio integredig.

2.28. Yn rhy aml o'r hanner nid oedd rôl y rheolwr troseddwyr na chamau gweithredu ar ei gyfer wedi cael eu nodi yn y cynllun amddiffyn plentyn, hyd yn oed os y troseddwr oedd y rheswm dros y cynllun. Pan oedd yr asiantaethau'n dod at ei gilydd roedd yn ymddangos eu bod yn cynnig neu'n derbyn rolau a thasgau a oedd yn rhan o gylch gwaith eu hasiantaethau unigol yn hytrach nag ystyried beth oedd ei angen er mwyn amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc a phenderfynu wedyn pwy oedd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r dasg neu'r rôl.

**Enghraifft o ymarfer: diffyg cynllunio ar y cyd**

Roedd gan Mr Abbot hanes o gamddefnyddio cyffuriau a thrais yn erbyn partneriaid ac roedd dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Roedd yn byw ar ei ben ei hun gyda'i blant a oedd â chynlluniau amddiffyn. Er hyn, nid oedd y rheolwr troseddwyr yn dod i'r cynadleddau amddiffyn plant na chyfarfodydd y grŵp craidd. Nid oedd yn glir o gofnodion y naill asiantaeth na'r llall beth oedd y rheswm dros hyn.

Nid oedd y cynllun amddiffyn plentyn yn cynnwys camau i'r gwasanaeth prawf eu cymryd ac nid oedd tystiolaeth bod gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi gweld nac wedi ystyried asesiadau risg neu gynlluniau'r gwasanaeth prawf nac wedi gofyn am wybodaeth am ei oruchwyliaeth.

2.29. Mewn achosion trais domestig, roedd y cynllunio er mwyn amddiffyn plant neu bobl ifanc yn benodol (yn hytrach na'r dioddefwr uniongyrchol) rhag y niwed sy'n cael ei achosi gan fyw gyda thrais domestig a/neu weld trais domestig yn aneffeithiol ac yn adlewyrchu'r asesiadau dryslyd.

### Camau gweithredu er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc

2.30. Mae gan bob asiantaeth gyfrifoldeb i amddiffyn plant a phobl ifanc dan *Working together to safeguard children 2013*. Mae gan Ymddiriedolaethau Prawf eu cyfrifoldebau, eu hasesiadau, eu cynlluniau a'u gwaith eu hunain i helpu i newid ymddygiad troseddol, yn ogystal â'r gwaith ar y cyd ag asiantaethau eraill er mwyn amddiffyn unrhyw blant a phobl ifanc gysylltiedig. Er bod rhai aelodau o'r staff prawf wedi deall hyn ac yn rhannu gwybodaeth ac yn cyflawni gwaith ar y cyd ochr yn ochr â'u gwaith ymddygiad troseddol unigol, roedd nifer o reolwyr troseddwyr, a rhai staff uwch, yn cael cryn drafferth i gyfuno'r syniad o wneud y ddau ac yn dweud nad amddiffyn plant a phobl ifanc oedd eu "busnes craidd". Er eu bod yn gallu gweld eu rôl o amddiffyn y 'cyhoedd', roeddent yn tueddu i weld gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc fel rhywbeth gwahanol i'w wneud gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant.

2.31. Bwriadwyd gofynion gorchmynion llysoedd troseddol er mwyn ymdrin ag ymddygiad troseddol ac yn anaml iawn y maent yn ystyried yr angen i amddiffyn plant a phobl ifanc. Gwelsom nifer o orchmynion cymunedol â gofyniad gwaith di-dâl yn unig lle'r oedd y troseddwr wedi'i asesu fel un a oedd yn achosi perygl o niwed i blant neu bobl ifanc neu a oedd yn gysylltiedig â phlant neu bobl ifanc oedd â chynlluniau amddiffyn. Yn yr achosion hyn, ymateb y rhan fwyaf o'r Ymddiriedolaethau oedd dyrannu swyddog prawf i gyflawni asesiad llawn. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw waith dilynol i ymwneud ag amddiffyn plant lle'r oedd yn berthnasol. Roedd yn amlwg bod rheolwyr troseddwyr yn teimlo bod y math o orchymyn a roddwyd yn eu cyfyngu. Nid oeddent yn teimlo y gallent ymwneud yn llawn oni bai fod y troseddwr yn torri'r amodau, ac yn aml iawn bryd hynny roedd argymhelliad ar gyfer gofyniad goruchwylio'n cael ei wneud. Ni welsom dystiolaeth fod unrhyw rai o'r Ymddiriedolaethau wedi ystyried sut y gellid ymdrin â'r broblem hon ar lefel strategol.

2.32. Nid oedd ymweliadau cartref yn cael eu defnyddio'n effeithiol fel ffordd arferol o helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc; gwelsom ymweliadau'n cael eu cynnal yn

rheolaidd ac yn cael eu defnyddio i bwrpas mewn ychydig dros draean yn unig o'r achosion. Roedd hyn weithiau'n gwbl groes i bolisi ysgrifenedig yr Ymddiriedolaeth a oedd yn annog ymweliadau o'r fath. Roedd Gorllewin Swydd Efrog yn eithriad. Yno, cynhaliwyd ymweliadau cartref ym mhob achos perthnasol. Ychydig o reolwyr troseddwyr oedd yn credu bod ganddynt ran i'w chwarae yn y gwaith o fonitro diogelwch plant a phobl ifanc drwy ymweld â chartrefi.

2.33. Mewn rhai achosion roedd yn amlwg nad oedd y rheolwr troseddwyr yn gwybod yn iawn beth oedd ei rôl yng nghyswllt amddiffyn plentyn neu berson ifanc. Roedd hyn yn arbennig o wir lle nad oedd y drosedd ei hun yn gysylltiedig ag amddiffyn plant neu drais domestig. Yn yr achosion hyn gwelsom reolwyr troseddwyr yn mynd i gyfarfodydd grŵp craidd ond heb gynnig llawer o werth ychwanegol. Yn siomedig iawn, nid oedd gweithwyr cymdeithasol a chadeiryddion cynadleddau'n gofyn am gael bod yn bresennol ac nid oeddent fel pe baent yn gofyn am ragor. Roedd rheolwyr troseddwyr hefyd yn cael anhawster i ganfod rôl iddynt eu hunain yn y gwaith i helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag effaith emosiynol trais domestig, ac unwaith eto nid oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn helpu i archwilio hyn.

2.34. Ar nodyn mwy cadarnhaol, gwelsom rai enghreifftiau o reolwyr troseddwyr a oedd yn amlwg wedi ystyried beth oedd eu rôl. Yn Calderdale, gwelsom reolwr troseddwyr a gynyddodd ei mewnbwn pan aeth y berthynas rhwng y troseddwr a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn anodd, ac a wnaeth gyfraniad llawn i'r gwaith o amddiffyn y plentyn fel a ganlyn:

**Enghraifft o ymarfer da: y gwasanaeth prawf yn cyfrannu tuag at waith amddiffyn plant**

Roedd Mr Spratt dan oruchwyliaeth ar ôl cael ei ddedfrydu am wneud delweddau anweddus o blant/cael delweddau anweddus o blant yn ei feddiant. Pan drosglwyddwyd yr achos i Calderdale, roedd yn ofynnol iddo fyw ar wahân i'w wraig a'i fab (a oedd â chynllun amddiffyn plentyn).

Fodd bynnag, daeth adref yn ôl, a phan holwyd ef gan ei reolwr troseddwyr, dywedodd gelwydd gan ddweud bod y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi dweud y gallai wneud hynny. Cymerodd y rheolwr troseddwyr gamau ar unwaith a gorfodwyd ef i adael unwaith eto.

Roedd y rheolwr troseddwyr yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r grŵp craidd ac ym mhob adolygiad ac roedd rôl y gwasanaeth prawf wedi'i nodi'n glir yn y cynllun amddiffyn plentyn.

Pan aeth y berthynas rhwng y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a'r teulu'n anodd camodd y rheolwr troseddwyr i mewn dros dro i ymgymryd â rôl brocer rhyngddynt a helpu i sicrhau nad oedd y sefyllfa'n cael effaith ar y gwaith amddiffyn plant.

**Ymddiriedolaeth Prawf Calderdale**

2.35. Yn gyffredinol, fodd bynnag, penderfynasom nad oedd y perygl o niwed a oedd yn cael ei achosi gan y troseddwr i blentyn neu berson ifanc wedi cael ei reoli'n effeithiol gan Ymddiriedolaethau Prawf mewn 15 allan o 39 o achosion lle'r oedd cynllun amddiffyn plentyn yn bodoli.

2.36. Roedd ansawdd cyfraniad yr Ymddiriedolaethau Prawf i gyfarfodydd amlasiantaeth yn amrywio. Ar y cyfan, roedd yr adroddiadau ysgrifenedig a welsom o ansawdd da, yn cynnwys gwybodaeth briodol ac yn canolbwyntio ar amddiffyn plant (16 allan o 22 adroddiad). Roedd ansawdd cyfraniadau eraill i grwpiau craidd a chyfarfodydd amlasiantaeth yn gymysg. Mewn mwy na hanner yr achosion, daethom i'r casgliad ei fod wedi bod yn effeithiol, drwy gyfraniad llafar rhagweithiol mewn cyfarfodydd a/neu drwy ddarparu gwybodaeth briodol.

2.37. Mae'r enghraifft isod yn dangos pa mor bwysig y gall rheolwr troseddwyr fod i'r gwaith o amddiffyn plant a phobl ifanc.

**Enghraifft o ymarfer da: cyfraniad llafar i gyfarfod adolygu (dyfyniad o'r cofnodion)**

"*Dywedodd y swyddog prawf fod gan Ms Verona Orchymyn Goruchwylio dwy flynedd a dedfryd ohiriedig. Bu'n gwadu'r drosedd am gyfnod, ond roedd hyn oherwydd bod ganddi ofn mynd i'r carchar ac oherwydd cyngor a roddwyd iddi gan ei chynrychiolydd cyfreithiol. Ers iddi gyfaddef maent wedi trafod pam y digwyddodd y drosedd a dulliau eraill priodol o ddisgyblu.*

*Maent wedi edrych ar reoli dicter ac maent wedi cyflawni gwaith yn ymwneud â'r effaith ar y dioddefwr ac ar aelodau eraill o'r teulu. Mae Ms Verona yn deall yn well erbyn hyn pa effaith y mae hyn wedi'i gael ar bob aelod o'r teulu.*

*Mae wedi ymgysylltu'n dda; nid yw wedi methu un apwyntiad, hyd yn oed pan oedd yn wael, ac mae wedi gweithio'n galed. Mae'n gallu rhoi'r hyn a ddysgodd ar y cwrs rhianta ar waith ac nid oes pryderon mawr. Ar y dechrau roedd yr apwyntiadau'n cael eu cynnal bob wythnos ond erbyn hyn maent yn cael eu cynnal bob pythefnos a byddant yn cael eu cynnal unwaith y mis o hyn ymlaen. Gan ei bod yn feichiog bydd hyn yn cynnwys ymweliadau cartref.*

*Gofynnodd y cadeirydd i Ms Verona sut roedd hi'n meddwl bod pethau'n dod yn eu blaen gyda'r gwasanaeth prawf. Dywedodd fod y gwasanaeth prawf yn dda, ei fod o gymorth mawr iddi, a'i fod yn ei helpu i ddeall gwahanol bethau yn ymwneud â beth ddigwyddodd, sut i'w rheoli, a sut i sicrhau na fydd yr un peth yn digwydd eto yn y dyfodol.*"

**Ymddiriedolaeth Prawf Swydd Nottingham**

2.38. Gwelsom fod camau a bennwyd mewn cyfarfodydd amlasiantaeth er mwyn amddiffyn plant wedi cael eu cymryd gan staff prawf mewn mwy na thri chwarter yr achosion. Mewn dau o bob tri achos, roedd y rheolwr troseddwyr wedi dal i fonitro'r berthynas er nad oedd cysylltiad uniongyrchol â'r plant neu'r bobl ifanc a nodwyd.

2.39. Mae angen i gyfraniad Ymddiriedolaethau Prawf tuag at gydweithio ffurfiol i amddiffyn plant fod yn seiliedig ar wybodaeth gan yr asiantaeth arweiniol a chael ei alluogi a'i hwyluso gan yr asiantaeth arweiniol: gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. I'r perwyl hwn, daethom i'r casgliad mai dim ond mewn 21 allan o 35 o achosion y gweithredodd y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn rhagweithiol drwy anfon gwahoddiadau i gyfarfodydd amddiffyn plant mewn pryd. Nid oedd cofnodion cyfarfodydd amddiffyn plant bob amser o ansawdd digon da, yn cael eu hysgrifennu'n fuan nac yn cael eu hanfon at y bobl berthnasol. Lle nad oedd rheolwyr troseddwyr wedi gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd, nid oeddent bob amser yn ymwybodol o benderfyniadau a oedd wedi cael eu gwneud

neu gamau a oedd wedi cael eu cymryd ac weithiau roeddent yn gweithio gyda throseddwyr heb wybodaeth lawn am y sefyllfa ar y pryd.

2.40. Gwelsom ychydig bach mwy o gydweithio (13 allan o 33 o achosion) er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc nag o gydgynllunio, ond nid oedd yn ddigon. Gwelsom rai achosion o gydweithio da, ond yn rhy aml o'r hanner nid oedd yn glir bod pob asiantaeth yn gwybod beth roedd y llall yn ei wneud na beth roedd pob un yn gyfrifol amdano.

2.41. Yn gyffredinol, gwelsom fod y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi mynd ati i hyrwyddo gweithio ar y cyd ag Ymddiriedolaethau Prawf mewn dim ond 8 allan o 28 o achosion perthnasol.

**Enghraifft o ymarfer: diffyg cydweithio**

Roedd gan Mr Peterson gollfarnau blaenorol am drais domestig ac roedd dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Gadawodd ei bartner a'i blant (a oedd â chynlluniau amddiffyn) a symudodd i fyw at ddynes arall â phlant mewn tref wahanol. Galwodd y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant gyfarfod o'r panel trais domestig lleol yn ei ardal newydd ond ni wahoddwyd y rheolwr troseddwyr a oedd yn goruchwylio Mr Peterson.

### Rhannu gwybodaeth rhwng Ymddiriedolaethau Prawf ac asiantaethau eraill

2.42. Mae'r rhan fwyaf o'r Adolygiadau Achos Difrifol (Adolygiadau Ymarfer Plant yng Nghymru) lle mae plentyn neu berson ifanc wedi marw neu wedi cael anaf difrifol, yn dod i'r casgliad bod rhyw fethiant gan asiantaethau i rannu gwybodaeth bwysig. Mae rhannu pob gwybodaeth yn gyflym yn amlwg yn hanfodol er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc yn effeithiol. Mewn mwy na hanner yr achosion lle'r oedd cynlluniau amddiffyn plant yn bodoli gwelsom nad oedd gwybodaeth wedi cael ei rhannu'n llawn nac yn gyflym rhwng asiantaethau (roedd y gyfran a rannwyd yn well yn Nyffryn Tafwys). Yn fwy pryderus fyth, mewn mwy na hanner yr achosion, lle'r oedd newid wedi bod yn lefel y perygl o niwed a oedd yn cael ei achosi, nid oedd gwybodaeth am hyn wedi'i hanfon i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac nid oedd camau priodol wedi'u cymryd.

2.43. Roedd y strwythur a'r trefniadau gweithio yn yr asiantaethau unigol yn amrywio'n fawr ac nid oedd hyn bob amser yn hwyluso dulliau da o rannu gwybodaeth. Yn sicr, roedd yr heriau ar gyfer rhai ardaloedd yn aruthrol. Yn gyffredinol, roedd rheolwyr troseddwyr yn fwy hyderus wrth gyfathrebu gyda'r heddlu nag yr oeddent wrth gyfathrebu â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant er bod rhai eithriadau.

**Enghraifft o ymarfer da: yr heddlu'n rhannu gwybodaeth**

Yng Ngogledd Cymru gwelsom fod yr heddlu'n gweithredu system wedi'i symleiddio er mwyn tynnu sylw asiantaethau eraill yn fuan at ddigwyddiadau yn y cartref lle'r oedd plant a phobl ifanc wedi bod yn bresennol. Roedd yn ofynnol i swyddogion cymdogaethau gwblhau manylion digwyddiadau cyn gorffen shifft, fel bod modd gosod tasgau, rhannu gwybodaeth a gwneud atgyfeiriadau priodol yn fuan.

### Ymddiriedolaeth Prawf Cymru

2.44. Dywedodd rheolwyr troseddwyr mewn rhai Ymddiriedolaethau Prawf wrthym fod ganddynt berthynas dda â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Mewn achosion o'r fath gwelsom fod hynny'n arwain at rannu gwybodaeth ac atgyfeiriadau. Mewn eraill, dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo bod y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, ar eu gorau, yn anhygyrch, ac ar eu gwaethaf, yn rhwystr ac o ddim cymorth. Yn aml iawn dywedwyd wrthym ei bod yn dibynnu ar y gweithiwr cymdeithasol penodol.

**Enghraifft o ymarfer: rhannu gwybodaeth**

Roedd gan Sonny, bachgen pum mlwydd oed, gynllun amddiffyn plentyn. Roedd ei fam wedi'i chael yn euog o greulondeb tuag ato ac roedd dan oruchwyliaeth yr Ymddiriedolaeth Prawf. Roedd cofnodion y gynhadledd amddiffyn plant gychwynnol yn cyfeirio at yr achos llys a oedd yn mynd i gael ei gynnal ond ni chysylltodd y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant â'r gwasanaeth prawf i ofyn am wybodaeth.

Ni chysylltodd y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant â'r gwasanaeth prawf yn dilyn hynny ac ni anfonwyd unrhyw wahoddiadau i grwpiau craidd neu gynadleddau adolygu; ni chysylltodd y rheolwr troseddwyr â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ychwaith. Roedd y fam wedi dioddef trais domestig ei hun ac roedd hi'n camddefnyddio alcohol. Yn y pen draw, clywodd y rheolwr troseddwyr gan y fam ei hun bod penderfyniad i fynd â'r plant oddi arni wedi'i wneud o'r blaen a bod ei phartner treisgar wedi dychwelyd i'r cartref a thrwy hynny gynyddu'r perygl iddi hi. Nid oedd y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi anfon yr wybodaeth hon ymlaen.

2.45. Ychydig iawn o dystiolaeth a welsom fod unrhyw asiantaethau wedi gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu prosesau rhannu gwybodaeth cyson a chadarn; yn hytrach roedd pob asiantaeth wedi datblygu ei phrosesau ei hun ac yn disgwyl i'r asiantaethau eraill eu derbyn. Roedd hyn yn aml yn gadael bylchau mewn camau amrywiol, er enghraifft colli ymatebion i atgyfeiriadau (neu ddiffyg ymatebion), gwahoddiadau i grwpiau craidd neu gynadleddau ddim yn cael eu derbyn mewn pryd, gwybodaeth bwysig yn effeithio ar ddiogelwch plentyn neu berson ifanc ddim yn cael ei rhannu.

### Atgyfeiriadau

2.46. Edrychasom hefyd ar yr atgyfeiriadau yr oedd Ymddiriedolaethau Prawf wedi'u gwneud i wasanaethau gofal cymdeithasol plant pan oedd ganddynt bryder ynglŷn â phlant neu bobl ifanc a oedd wedi codi yn ystod cysylltiad â throseddwr. Roedd pob Ymddiriedolaeth yn cael anhawster i gasglu gwybodaeth am atgyfeiriadau i ryw raddau. Roedd mwy nag un Ymddiriedolaeth yn gorfod cysylltu â'i

gwasanaethau gofal cymdeithasol plant lleol i gael manylion am yr atgyfeiriadau yr oeddent wedi'u gwneud. Nid oedd yn anarferol i'r rhestr o atgyfeiriadau a roddwyd i ni gynnwys achosion lle nad oedd unrhyw atgyfeiriadau wedi'u gwneud mewn gwirionedd. Mewn un Ymddiriedolaeth ni allem edrych ar unrhyw atgyfeiriadau gan fod y rhestr a roddwyd i ni'n gwbl anghywir.

2.47. Nid oedd y broses ar gyfer atgyfeiriadau'n cael ei roi ar waith yn gyson – roedd rhai'n cael eu gwneud dros y ffôn, rhai drwy ebost a rhai gan ddefnyddio ffurflen atgyfeiriadau. Nid oedd rheolwyr troseddwyr bob amser yn siŵr beth oedd yr union weithdrefn.

2.48. O'r atgyfeiriadau y llwyddasom i'w harolygu, roedd y rhan fwyaf wedi'u gwneud mewn pryd ac roedd tri chwarter ohonynt yn cynnwys manylion llawn am y plentyn neu'r person ifanc ac yn disgrifio natur a lefel y perygl o niwed. Roedd hynny'n gadael chwarter, a oedd yn amrywio, ond nad oedd yn cynnwys manylion llawn, nad oeddent yn disgrifio natur y perygl a/neu nad oeddent yn nodi pa ymateb a oedd yn ofynnol gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Mewn rhai achosion, roedd yn ymddangos nad oedd rheolwyr troseddwyr wedi ystyried pa ymateb yr oedd arnynt ei eisiau, na beth yr oeddent yn meddwl y gallai gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ei wneud. Yn hytrach, roeddent wedi gwneud atgyfeiriad er mwyn dilyn gweithdrefn.

**Enghraifft o ymarfer: diffyg cynnwys mewn atgyfeiriadau**

Mewn un ymddiriedolaeth, gwelsom yr atgyfeiriad a ganlyn yn ymwneud â dyn â hanes o drais domestig a'i bartner newydd a oedd â babi: "*Fy mhrif bryder ynglŷn â lles y plentyn yw, yn gyntaf, bod Mr Stevenson yn debygol o gael ei anfon i'r ddalfa ac nid wyf yn gwybod llawer am y gefnogaeth sydd gan ei bartner gan nad wyf wedi ei chyfarfod, ac yn ail mae ganddo hanes o drais.*"

2.49. Nid oedd yr ymateb gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn brydlon bob amser. Yn rhy aml o'r hanner ni wnaeth y rheolwr troseddwyr fynd ar ôl y mater hwn ac mewn gormod o achosion, ar ôl i'r atgyfeiriad gael ei wneud, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan y rheolwr troseddwyr beth bynnag oedd yr ymateb, neu'r diffyg ymateb, gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Yng Ngorllewin Swydd Efrog fodd bynnag, roedd pob atgyfeiriad wedi'i wneud mewn pryd, ac roedd ymatebion y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant wedi'u gwneud mewn pryd, a oedd hefyd yn cael ei ystyried yn foddhaol ym mhob achos.

2.50. Yn aml iawn nid oedd proses ffurfiol er mwyn monitro'r ymateb i atgyfeiriadau; roedd yn dibynnu a oedd y rheolwr troseddwyr yn cofio gwneud hynny. Fodd bynnag, mewn un Ymddiriedolaeth, er bod ganddi broses nid oedd neb yn mynd ar ôl atgyfeiriadau os oedd angen gwneud hynny. Yn ychwanegol at hyn, nid oedd cofnod amlwg o atgyfeiriadau'n cael ei wneud bob amser mewn ffeiliau achosion, neu roedd y cofnod yn aml wedi'i guddio mewn nodiadau achosion ac, o ganlyniad, nid oedd neb yn mynd ar ôl y mater.

2.51. Gwelsom enghraifft o'r modd y gallai hyn roi plentyn neu berson ifanc mewn perygl:

**Enghraifft o ymarfer: mynd ar ôl atgyfeiriadau**

Yn dilyn digwyddiad difrifol lle'r honnwyd bod Mr Tomlinson wedi taflu morthwyl at blentyn ifanc a chymryd arno ei fod yn mynd i'w losgi ag alcohol a thaniwr sigaréts, cysylltodd y rheolwr troseddwyr â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant drwy neges ffôn ar unwaith ond ni chafodd ymateb ac ni chyfeiriodd y mater i sylw rhywun ar lefel uwch. Nid oedd tystiolaeth bod y neges hon wedi cael ei derbyn yn ffeil achosion y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Aeth pedwar mis heibio cyn i'r rheolwr troseddwyr fynd ar ôl yr atgyfeiriad ffôn hwn i ganfod pa gamau oedd wedi cael eu cymryd.

### Goruchwyliaeth y rheolwyr

2.52. Gan nad oedd yr Ymddiriedolaethau'n gallu casglu gwybodaeth am atgyfeiriadau, efallai nad yw'n syndod mai ychydig iawn o oruchwyliaeth gan reolwyr a welsom, os o gwbl. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi gweld achosion lle nad oedd y rheolwr troseddwyr wedi sylweddoli bod angen atgyfeiriad ac nad oedd rheolwr wedi sylwi ar yr achos, er enghraifft:

**Enghraifft o ymarfer: methu â sylweddoli bod angen amddiffyn plentyn**

Roedd gan Mr Olivier hanes maith a phrofedig o gam-drin domestig yn erbyn partner blaenorol. Priododd â merch a oedd newydd ddod i Brydain ac nad oedd yn siarad llawer o Saesneg - priodas wedi'i threfnu – a daeth hithau'n feichiog. Er hyn, ni chafodd yr achos ei gyfeirio i sylw'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

2.53. Mae goruchwyliaeth rheolwyr o'r maes gwaith hwn yn arbennig o bwysig o gofio oedran y dioddefwyr posibl a pha mor agored ydynt i niwed. Ychydig o dystiolaeth a welsom yn unrhyw un o'r Ymddiriedolaethau o oruchwyliaeth weithredol, reolaidd ac effeithiol o ymarfer gan reolwyr. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rheolwyr troseddwyr y buom ni'n siarad â hwy (20 allan o 26) fod eu gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc yn cael ei drafod mewn cyfarfodydd goruchwylio. Roedd yn eitem sefydlog ar yr agenda i ddim ond 12 allan o 26 o ymarferwyr, ond roedd y gweddill wedi dwyn achosion i sylw rheolwyr.

2.54. Nid oedd systemau gwybodaeth yr Ymddiriedolaethau Prawf o gymorth o ran ansawdd rheoli achosion gweithredol nac o ran goruchwyliaeth rheolwyr o achosion. Roeddent yn aml yn aneglur neu ddim yn bodoli o gwbl. Yn ychwanegol at hyn, gwelsom rai achosion a oedd wedi eu nodi fel achosion amddiffyn plant ond nad oeddent yn achosion amddiffyn plant mewn gwirionedd. Yn Nyffryn Tafwys roedd rhai rheolwyr yn defnyddio 'cofrestr risg' i nodi achosion.

2.55. Mae'r diffygion hyn o ran goruchwyliaeth y rheolwyr a systemau yn fater sy'n peri pryder difrifol gan ei fod yn golygu nad oes gan Ymddiriedolaethau Prawf yn aml iawn unrhyw ffordd o wybod a oes camau wedi'u cymryd mewn perthynas â phryder posibl ynglŷn ag amddiffyn plant nac unrhyw ffordd o goladu gwybodaeth er mwyn gweld beth sydd angen ei wella a beth sy'n cael ei wneud yn dda.

**Casgliad**

2.56. Roedd ansawdd cyfraniad yr Ymddiriedolaethau Prawf i waith amddiffyn plant yn amrywio, rhwng y gwahanol sefydliadau a arolygwyd ac o fewn sefydliadau unigol. Gwelsom rai ymyriadau da lle'r oedd rheolwyr troseddwyr yn amlwg yn deall y materion a oedd yn achosi perygl o niwed, ac yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill er mwyn rheoli'r risgiau ac amddiffyn plant a phobl ifanc. Gwelsom achosion eraill lle'r oedd rheolwyr troseddwyr yn amlwg ddim yn deall natur y perygl, ddim wedi deall beth oedd eu rôl a naill ai ddim yn gweithio gydag asiantaethau eraill neu'n oddefol iawn. Mewn rhai lleoedd, nid oedd gwaith i amddiffyn plant yn cael ei weld fel 'busnes craidd'. O ganlyniad, ni allem fod yn hyderus bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn mor ddigonol ag y gallent fod ym mhob un o'r achosion a arolygwyd gennym.

2.57. Mewn rhai achosion roedd yr asiantaethau eraill, gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn bennaf, wedi galluogi, hwyluso ac annog cyfraniad rheolwyr troseddwyr a thrwy hynny wedi gwella'r modd y mae plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn. Fodd bynnag, mewn llawer gormod o achosion, nid oedd hyn wedi digwydd.

# 3. Gwaith gan Dimau Troseddwyr Ifanc er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc


**Crynodeb**

Mae'r bennod hon yn disgrifio gwaith Timau Troseddwyr Ifanc gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr a chyfraniad y Tîm Troseddwyr Ifanc i waith sy'n cael ei wneud ar y cyd er mwyn eu hamddiffyn. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nodi, asesu, cynllunio a chamau i amddiffyn yn ogystal â rhannu gwybodaeth a goruchwyliaeth gan y rheolwyr. Mae'n cyfeirio'n benodol at y gwaith sy'n cael ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae hefyd yn gwerthuso pa mor dda y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn hwyluso cydweithio.


**Canfyddiadau allweddol**

- Roedd trefniadau asesu a chynllunio wedi'u sefydlu er mwyn helpu i amddiffyn plant a phobl ifanc lle bo angen, ond nid oeddent bob amser o ansawdd digonol. Nid oedd rhieni/gofalwyr yn ymwneud yn briodol bob amser ac nid oedd ymweliadau cartref yn cael eu gwneud bob amser.
- Nid oedd yr asesiad o ba mor agored i niwed oedd plentyn neu berson ifanc na'r gwaith cynllunio er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o niwed bob amser o ansawdd digonol.
- Ychydig o asesu a chynllunio ar y cyd oedd yn digwydd ac nid oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant bob amser yn hwyluso dulliau da o rannu gwybodaeth nac yn annog cydweithio.
- Roedd rhywfaint o waith uniongyrchol rhagorol, llawn dychymyg gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, a rhywfaint o waith partneriaeth da.
- Roedd systemau goruchwyliaeth gan reolwyr wedi'u sefydlu ond nid ydynt yn effeithiol bob amser.
- Roedd gwaith i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddatblygu.

### Nodi plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant

3.1. Gall y cysylltiad cyntaf rhwng staff Timau Troseddwyr Ifanc a phlant a phobl ifanc ddigwydd yn ystod camau amrywiol yn y broses cyfiawnder troseddol. Bydd rhai staff Timau Troseddwyr Ifanc sy'n gweithredu fel Oedolion Priodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd naill ai'n cael eu cadw yn y ddalfa gan yr heddlu neu'n ymwneud â chynlluniau dargyfeirio yn cyfarfod y plentyn neu'r person ifanc cyn iddo gael ei gyhuddo o unrhyw drosedd. Ar y llaw arall, gallai'r cysylltiad cyntaf ddigwydd yn y cam adroddiad cyn dedfrydu er mwyn ysgrifennu adroddiad, neu efallai na fydd yn digwydd tan ar ôl y ddedfryd. Mewn unrhyw un o'r amgylchiadau hyn, mae'n bosibl mai ychydig o wybodaeth fydd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc am y plentyn neu'r person ifanc felly dylid cysylltu â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn gynnar er mwyn canfod a ydynt yn gwybod am y plentyn neu'r person ifanc, ac os

ydynt, sut y mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc.

3.2. Mae gwaith Timau Troseddwyr Ifanc gyda phlant a phobl ifanc yn ymwneud yn bennaf â'u helpu i newid eu hymddygiad troseddol ac amddiffyn dioddefwyr neu ddioddefwyr posibl rhag unrhyw berygl o niwed y gallent ei achosi. Fodd bynnag, mae gan Dimau Troseddwyr Ifanc ran hanfodol i'w chwarae hefyd er mwyn asesu pa mor agored i niwed yw'r plentyn neu'r person ifanc a gweithio er mwyn helpu i'w amddiffyn lle bo angen ar y cyd ag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r achos.

3.3. Er mwyn ein galluogi i ganfod a oedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn gwneud digon o ymholiadau cychwynnol gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, arolygasom 83 o achosion wedi'u dewis ar hap a agorwyd yn ystod y tri mis cyn gwaith maes yr arolygiad. Roeddem yn awyddus i weld:

- a oedd gwiriadau'n cael eu gwneud gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant
- a oedd gwybodaeth ynglŷn â rhan y tîm troseddwyr ifanc yn cael ei chyfathrebu i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant lle'r oeddent yn ymwneud ag achos
- a oedd yr atgyfeiriadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i wasanaethau gofal cymdeithasol plant lle'r oedd hynny'n briodol
- a oedd yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc.

3.4. Roedd gan bob un o'r Timau Troseddwyr Ifanc weithdrefnau er mwyn gwirio a oedd plant a phobl ifanc yn hysbys i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Roedd y rhain yn aml yn cael eu cychwyn gan staff gweinyddol ac roedd rheolwyr achosion yn mynd ar eu holau os oedd angen. Roedd gan y rhan fwyaf o'r Timau Troseddwyr Ifanc fynediad uniongyrchol at gronfa ddata'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, rhai ar sail darllen yn unig, a rhai â'r gallu i fewnbynnu data. Roedd yr wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar systemau cofnodi achosion Timau Troseddwyr Ifanc.

3.5. Yn yr achosion a ddewiswyd ar hap, gwelsom fod gwiriadau prydlon wedi cael eu gwneud gyda gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ym mhob achos ond dau a rhoddwyd hysbysiad prydlon ynglŷn â chysylltiad y Tîm Troseddwyr Ifanc ym mhob achos ond un. Yn ychwanegol at hyn, ym mhob achos ond un, lle'r oedd materion amddiffyn plant, roeddent wedi cael eu cydnabod.

**Plant a phobl ifanc a oedd â chynlluniau amddiffyn yn barod**

3.6. Yn y sampl o 36 o achosion lle'r oedd cynllun amddiffyn plentyn wedi'i lunio, gwelsom fod ymholiadau wedi cael eu gwneud ym mhob un ohonynt a lle canfuwyd bod y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn ymwneud ag achos, roedd hysbysiad prydlon ynglŷn â chysylltiad y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi'i anfon ym mhob un ond tri. Nid oedd yr hysbysiad wedi'i gofnodi'n glir ar gofnodion gwasanaethau gofal cymdeithasol plant bob amser fodd bynnag. Roedd gwiriadau gyda'r heddlu a'r gwasanaeth prawf yn llai cyson. Mewn achosion perthnasol, roeddent wedi cael eu gwneud gyda'r heddlu mewn 16 allan o 24 a gydag Ymddiriedolaethau Prawf mewn 4 allan o 11.

## Asesu

3.7. Mae rheolwyr achosion yn gwneud tri asesiad; un o anghenion y plentyn neu'r person ifanc a beth sy'n cyfrannu tuag at ei ymddygiad troseddol, un o ba mor agored i niwed ydyw a'r angen i'w ddiogelu, ac un o'r perygl o niwed y mae'n ei achosi i eraill. Cyfeirir at yr offeryn a ddefnyddir i wneud yr asesiad o anghenion cysylltiedig â throseddu'r plentyn neu'r person ifanc fel Asset. Ategir Asset gan broses sgrinio sy'n edrych pa mor agored i niwed yw'r plentyn neu'r person ifanc gan ddod â ffactorau a nodwyd yn Asset fel rhai a allai wneud y plentyn neu'r person ifanc yn agored i niwed at ei gilydd. Dyma'r prif asesiad sy'n cael ei wneud gan y Tîm Troseddwyr Ifanc o ba mor agored i niwed yw'r plentyn neu'r person ifanc ac o'r angen i'w ddiogelu.

3.8. Ym mhob un o'r achosion a arolygwyd gennym, roedd materion amddiffyn plant wedi cael eu cydnabod gan fwyaf a chamau priodol wedi cael eu cymryd. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion (5 allan o 26) nid oedd y peryglon i blant neu bobl ifanc **eraill** wedi cael eu cydnabod ac, o ganlyniad, nid oedd camau priodol i'w hamddiffyn wedi cael eu cymryd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc.

3.9. Roedd ansawdd y gwaith o asesu diogelwch y plentyn neu'r person ifanc yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol Dimau Troseddwyr Ifanc ac o fewn y timau unigol. Yn Bromley gwelsom fod pob un ond un o 20 o achosion wedi cael ei asesu'n ddigon da. Ym mhob un o'r Timau Troseddwyr Ifanc a arolygwyd gennym, gwelsom rai asesiadau da iawn, er bod nifer fach yn wael iawn. Roedd y rhesymau dros ddod i'r casgliad bod asesiad yn annigonol yn amrywio:

- gwybodaeth gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ddim i'w gweld bob amser yn yr asesiadau a welsom
- cysylltiad â rhieni/gofalwyr ac ymweliadau cartref yn amrywio'n fawr, o bob achos mewn rhai Timau Troseddwyr Ifanc i lai na hanner yr achosion mewn timau eraill
- prosesau sgrinio i weld pa mor agored i niwed yw plant neu bobl ifanc ddim yn dod â'r holl ffactorau at ei gilydd; nid oeddent yn ystyried yr ystod lawn o broblemau bob amser, nid oeddent yn cynnwys dadansoddiad, ac nid oeddent yn dod i gasgliad clir ynglŷn â beth yn union oedd y perygl i'r plentyn neu'r person ifanc.

3.10. Nid oedd asesiadau'n cael eu rhannu'n rheolaidd ac yn gyson gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant mewn unrhyw un o'r Timau Troseddwyr Ifanc yr ymwelsom â hwy, er bod yr ymarfer yn amrywio a bod y gyfran yn uwch mewn rhai nag mewn eraill. Ni welsom unrhyw gopïau o asesiadau Timau Troseddwyr Ifanc yn ffeiliau'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Er bod rhai eithriadau, nid oedd asesiadau Timau Troseddwyr Ifanc at ei gilydd yn cyfrannu tuag at asesiadau gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Nid oedd llawer o dystiolaeth bod unrhyw asesiadau'n cael eu gwneud ar y cyd gan Dimau Troseddwyr Ifanc ac asiantaethau eraill ac eithrio Reading lle'r oedd y defnydd o'r model *Arwyddion Diogelwch* fel pe bai'n cyfrannu tuag at waith mwy cydgysylltiedig.

**Enghraifft o ymarfer da: model cydweithio: *Arwyddion Diogelwch***

Bwriadwyd y model *Arwyddion Diogelwch* er mwyn helpu ymarferwyr â gwaith cynllunio ar gyfer diogelu mewn achosion amddiffyn plant. Ei nod yw galluogi ymarferwyr mewn gwahanol ddisgyblaethau i weithio gyda'i gilydd ac mewn partneriaeth â theuluoedd a phlant. Cynlluniwyd yr offer er mwyn helpu i gynnal asesiadau risg a llunio cynlluniau gweithredu i leihau risg a pherygl drwy nodi meysydd y mae angen iddynt newid tra'n canolbwyntio ar gryfderau, adnoddau a rhwydweithiau'r teulu. Mae defnyddio iaith gyffredin yn helpu i osgoi tybiaethau a chamddealltwriaeth ac yn sicrhau bod pob asiantaeth yn gwybod yn iawn beth yw'r risgiau sy'n cael eu hachosi a beth yw'r gwaith y mae angen ei wneud.


**Cynllunio er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc**

3.11. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd rhieni/gofalwyr yn ymwneud â gwaith cynllunio Timau Troseddwyr Ifanc nac yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau goruchwylio Timau Troseddwyr Ifanc; at ei gilydd nid oedd y cynlluniau'n cael eu rhannu â hwy.

3.12. Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn defnyddio cynlluniau rheoli pa mor agored i niwed yw plentyn neu berson ifanc er mwyn cynllunio gwaith diogelu ac amddiffyn plant, ond nid oedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau a aseswyd gennym yn nodi'n glir pa gamau a fyddai'n cael eu cymryd, ac nid oedd disgrifiad clir o'r camau a oedd yn cael eu cymryd gan asiantaethau eraill. Roedd llawer yn ddisgrifiadol, ac nid oeddent yn canolbwyntio ar dasg neu ganlyniad, a gwelsom ormod o wybodaeth gyd-destunol a oedd yn aml yn gwneud y tasgau neu'r camau gweithredu'n aneglur.

3.13. Yn Reading gwelsom gynllun a oedd wedi cael ei lunio gan ferch ifanc a'i rheolwr achos er mwyn helpu'r ferch ifanc i roi'r gorau i niweidio'i hun.

**Enghraifft o ymarfer da: Cynllun Diogelwch yn defnyddio'r model *Arwyddion Diogelwch***



SAFETY STATEMENTS

"My name is. I am safe right now. I am in the present, not the past. I am located in........; the date is.....I've got through this before I can get through it again, tomorrow's a new day, the storm don't last forever".

"Stay strong, its not worth scars and marks, things will get better but its got to get worse before it gets better. There isn't no rainbow without rain".

's Safety Plan

What I need to do to reduce the risk of me acting on suicidal thoughts?

- Throw away blades/tablets/glass
- Mum to lock away tablets/blades/glass
- To have no tablets/blades/glass in the house (keep them at s)

What warning signs or triggers are there that make me feel more out of control?

- Being grounded - don't get grounded
- When my Mum moans about anything - ignore her
- Silly things - tell myself its silly
- When I argue with family/friends - Walk away
- Waiting for things/people - Leave them or distract myself
- Having to wake up early - go to bed early
- Being stuck at home - get out of the house more/go to meet friends

What have I done in the past that helped? What ways of coping do I have?

- Elastic band
- Gone on a walk

What will I d[redacted] calm and soothe myself in the future:

- Eat chocolate
- Hot bath
- Writing down my thoughts in a diary
- Do some art/drawing
- Listen to music
- Do something constructive to get myself out of the situation
- Go to sleep
- Call - friend/YOS/Social Worker/999
- Long walk
- Breathe in and out concentrating on your breathing (see exercise)
- Hold ice cube in your hand and squeeze it really hard
- Instead of cutting use red pen or nail polish
- Digging your finger nails without breaking your skin/bite yourself
- Elastic bands
- Watching funny videos
- Screaming into a pillow
- Throw soft things at a wall
- Pillow stick pins in it
- Cry
- Get out more to take my mind off things
- Get a reasonable amount of sleep
- Clench and release my fists
- Saying kind things to myself
- Remind myself that I am safe (see exercise)
- Calling a friend and chatting
- Calling Social Worker or somebody at YOS

What will I tell myself (as alternatives to dark thoughts):

- "I've got through this before I can get through it again, tomorrow's a new day, the storm don't last forever"
- Read quotes on my phone and in my bedroom

What would I say to a close friend who was feeling this way?

- "Stay strong, it's not worth scars and marks, things will get better but it's got to get worse before it gets better. There isn't no rainbow without rain".

What could others do that would help?

- Don't wake me up if I've got nothing planned
- Someone reminding me of my safety plan
- Call people/have long calls
- Take me to hospital

Who can I call?

- My friend (Hannah) - 07763
- Social Worker - 07843
- YOS - 01189
- - 077
- Samaritans - 08457
- Childline - 08001111
- Call 999 if I can't get to A&E safely

A safe place I can go to:

- YOS
- Social Worker's office
- Friends houses
- s house

**Tîm Troseddwyr Ifanc Reading**

3.14. Ar wahân i Reading, nid oedd ffeiliau Timau Troseddwyr Ifanc yn cynnwys cynlluniau amddiffyn plant bob amser ac nid oedd tystiolaeth eu bod wedi cael eu hystyried gan staff Timau Troseddwyr Ifanc. Ar y llaw arall, nid oedd cynlluniau rheoli pa mor agored i niwed yw plant a phobl ifanc i'w gweld yn unrhyw un o'r ffeiliau gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, a phrin iawn oedd y dystiolaeth eu bod wedi cael eu gweld neu eu hystyried gan yr asiantaeth honno yn eu gwaith cynllunio eu hunain. Roedd mwy o gysondeb mewn gwaith cynllunio yn yr achosion hynny lle gwelsom y model *Arwyddion Diogelwch* yn cael ei ddefnyddio.

3.15. Er bod rhai eithriadau amlwg, prin oedd y dystiolaeth o Dimau Troseddwyr Ifanc yn ymwneud â gwaith cynllunio **ar y cyd**. Pan oedd yr asiantaethau'n dod at ei gilydd ymddangosai eu bod yn cynnig neu'n derbyn rolau a thasgau a oedd yn rhan o gylch gwaith eu hasiantaethau unigol yn hytrach nag ystyried beth oedd ei angen er mwyn amddiffyn y plentyn a'r person ifanc, a phenderfynu ar ôl hynny pwy oedd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r dasg neu'r rôl.

3.16. Mewn rhai lleoedd nid oedd llawer o dystiolaeth weladwy yn ffeiliau'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant bod gweithwyr cymdeithasol yn deall rôl gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc er mwyn helpu amddiffyn plant a phobl ifanc na sut y gallent rannu tasgau er mwyn gwella canlyniadau mewn cynlluniau amddiffyn plant.


**Camau gweithredu er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc**


3.17. Mewn gwaith amlasiantaeth, gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc yn aml iawn oedd y rhai a oedd yn ymwneud agosaf ac yn fwyaf uniongyrchol â phlant a phobl ifanc. Gwelsom rywfaint o waith wyneb yn wyneb rhagorol, llawn dychymyg ac amddiffynnol gan reolwyr achosion a gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc eraill gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr.

**Enghraifft o ymarfer da: ymgysylltu â pherson ifanc**

Yn Reading, gwelsom ymateb llawn dychymyg gan weithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc i ferch ifanc a oedd wedi cwyno na allai gofio pwy oedd pawb a oedd yn ymwneud â hi. Roedd ei rheolwr achos wedi defnyddio lluniau Polaroid a chardiau lliw i'w helpu i greu cofnod gweledol o bawb oedd yn gweithio gyda hi, gan gynnwys eu rôl a manylion er mwyn cysylltu â hwy.

**Tîm Troseddwyr Ifanc Reading**




3.18. Er hyn, roedd yr arferion yn amrywio, ac mewn rhai Timau Troseddwyr Ifanc ni allem weld unrhyw waith penodol i amddiffyn plant a phobl ifanc ar wahân i fynd i

gyfarfodydd. Mewn un achos, er enghraifft, ni wnaethpwyd unrhyw ymweliadau cartref drwy gydol y gorchymyn. Yn gyffredinol, fodd bynnag, roedd ymweliadau cartref yn cael eu gwneud fel rhan o waith y Timau Troseddwyr Ifanc a gwelsom rywfaint o ymweliadau ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Teimlem fod angen diffinio pwrpas ymweliadau cartref yn gliriach er mwyn pwysleisio sut y gellid eu defnyddio er mwyn monitro materion amddiffyn plant, ond roedd yn braf gweld hyn yn digwydd.

3.19. Mewn rhai Timau Troseddwyr Ifanc nid oedd camau'n cael eu cymryd pan oedd risg newydd yn dod i'r amlwg neu pan oedd lefel risg a oedd yn bodoli'n barod yn codi. Nid oedd newidiadau yn lefel angen unigolyn i gael ei ddiogelu yn cael eu cydnabod bob amser, nac unrhyw ymateb yn cael ei wneud iddynt, ac nid oedd newid yn amgylchiadau unigolyn bob amser yn arwain at adolygiad o'r asesiad a/neu'r cynllun. Lle'r oedd goblygiadau newidiadau'n cael eu cydnabod, nid oedd yr wybodaeth yn cael ei rhannu ag asiantaethau eraill bob amser. Gwelsom hefyd nifer o adolygiadau a oedd yn cael eu copïo a'u hailddyddio; ymarfer cwbl ddibwrpas.

3.20. Nid oedd pob gwasanaeth gofal cymdeithasol plant yn rhoi gwahoddiad prydlon i Dimau Troseddwyr Ifanc nac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Dangosodd data ein harolygiad gydberthynas rhwng gwahoddiadau prydlon i gyfarfodydd a faint o gydweithio a oedd yn digwydd ac roedd hyn yn amlwg yn Reading a Dinas Nottingham lle'r oedd gwahoddiadau yn gyffredinol yn brydlon.

3.21. Er bod rhai eithriadau, roedd presenoldeb da a chyfraniad gweithredol ar y cyfan gan reolwyr achosion a staff eraill Timau Troseddwyr Ifanc mewn cyfarfodydd amlasiantaeth. Roedd y cofnodion yn dangos nad oedd rhai gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc yn siarad digon yn y cyfarfodydd fodd bynnag ac, o drafod hyn, roedd yn amlwg nad oedd pob un yn hollol glir beth oedd ei rôl a'i gyfrifoldebau yn y sefyllfaoedd hynny. Yn yr achosion hynny, nid oedd yn glir pa gamau yr oedd cadeiryddion yn eu cymryd er mwyn ymgysylltu â gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc a sicrhau eu bod yn deall beth oedd yn digwydd. Ar wahân i Reading, nid oedd cofnodion cyfarfodydd amlddisgyblaeth bob amser yn disgrifio camau gweithredu'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn glir. Fodd bynnag, yn yr achosion hynny lle'r oedd y camau gweithredu yn cael eu disgrifio, roeddent yn cael eu cyflawni gan y Timau Troseddwyr Ifanc.

3.22. Roedd adroddiadau i gyfarfodydd amlasiantaeth at ei gilydd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ac roeddent yn canolbwyntio'n ddigonol ar amddiffyn plant. Roedd rhai eithriadau ac ni welsom unrhyw brosesau sicrhau ansawdd o amgylch yr adroddiadau hyn. Yn Reading gwelsom fod adroddiadau a oedd wedi cael eu hysgrifennu yn iaith y model *Arwyddion Diogelwch* yn helpu i chwalu'r rhwystrau ieithyddol rhwng asiantaethau, yn cyfrannu tuag at gamau gweithredu clir i'r Timau Troseddwyr Ifanc mewn cynlluniau amddiffyn plant ac yn hyrwyddo mwy o waith cydgysylltiedig.

3.23. Lle'r oedd cydweithio da er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc gwelsom ymddiriedaeth, parch ac awydd i gydweithio rhwng gweithwyr cymdeithasol a staff Timau Troseddwyr Ifanc yn arwain at rannu gwybodaeth yn brydlon, dyrannu

rolau a thasgau'n ystyriol a mwy o waith cydgysylltiedig. Lle nad oedd hyn yn digwydd gwelsom:

- asiantaethau'n defnyddio'u prosesau eu hunain heb ystyried yn iawn beth oedd y pwrpas; amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc
- diffyg dealltwriaeth o rôl pob asiantaeth
- asiantaethau'n gweithio ar eu pen eu hunain
- bylchau mewn gwybodaeth am ddigwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau
- colli cyfarfodydd
- cyfraniad gwael i gyfarfodydd amlasiantaeth neu ddim cyfraniad o gwbl
- neb yn mynd ar ôl camau gweithredu
- drifftio a diffyg cynnydd
- plant a phobl ifanc yn gweithio gyda llawer o bobl a'r rheini'n gofyn yr un cwestiynau iddynt.

**Enghraifft o ymarfer da: cydweithio**

Roedd tad Nathan yn byw oddi cartref oherwydd troseddau yn ymwneud â bod â delweddau anweddus o blant yn ei feddiant. Roedd ei fam yn anabl ac roedd ganddi broblemau ymlyniad gyda Nathan, a oedd yn golygu bod eu perthynas dan bwysau. Nid oedd yn cael ei fwydo'n iawn, nid oedd yn cael digon o faeth ac roedd arno eisiau byw yn rhywle arall ar wahân i gartref y teulu. Cysylltodd rheolwr achos y Tîm Troseddwyr Ifanc â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ar unwaith pan gafodd y gorchymyn atgyfeirio ei wneud a chyflwynodd adroddiad addas i'r cyfarfod adolygu amddiffyn plant nesaf yn dweud:

"*Fy mhryder i, o safbwynt troseddu, yw bod y risg y bydd Nathan yn ymwneud â rhagor o weithgareddau troseddol yn cynyddu. Mae'r wybodaeth rwyf wedi ei chasglu yn fy ngwneud yn bryderus iawn ynglŷn â'i les corfforol ac emosiynol. Rwy'n argymell ei fod yn cael ei roi mewn llety a bod trefniadau byw amgen yn cael eu gwneud ar ei gyfer.*"

Gweithiodd yr asiantaethau gyda'i gilydd i ddatblygu cynllun cadarn iddo a oedd yn cynnwys byw gyda rhieni maeth, a'i helpu i ymgysylltu ag asiantaeth allanol i drafod risgiau rhywiol yn ymwneud â'i ffordd o fyw. Trefnodd y Tîm Troseddwyr Ifanc iddo gael ei gyfeirio at gampfa, ac roedd yn awyddus i fynd yno, a chan ei fod yn defnyddio canabis trefnwyd sesiynau yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau.

Cafodd Nathan ei symud i lety maethu. Gwellodd ei iechyd, ac nid oedd wedi dod i sylw'r Tîm Troseddwyr Ifanc eto, er bod 14 mis ers i'w orchymyn ddod i ben.

**Tîm Troseddwyr Ifanc Calderdale**

3.24. Mae gwaith i amddiffyn plant a phobl ifanc yn gymhleth iawn mewn achosion lle mae'r plant a'r bobl ifanc hefyd yn achosi risg o niwed i blant a phobl ifanc eraill. Gwelsom rywfaint o ddryswch mewn Timau Troseddwyr Ifanc a gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn yr achosion hyn. Roedd y gwaith yn cael ei reoli'n dda gan Dimau Troseddwyr Ifanc mewn 8 achos perthnasol allan o 15.

**Enghraifft o ymarfer: plentyn â chynllun amddiffyn hefyd yn achosi perygl o niwed i eraill**

Roedd Jack yn 14 oed ac roedd wedi troseddu o'r blaen drwy ymosod ar ei chwaer ar yr adeg yr aeth i fyw gyda'i dad, a oedd â hanes o gyflawni trais domestig. Roedd cynlluniau amddiffyn plant wedi'u gwneud yn barod ar gyfer hanner brodyr a chwiorydd Jack, a oedd yn byw yno'n barod, a lluniwyd cynllun ar ei gyfer ef hefyd. Ni chafodd ymddygiad Jack ei ystyried mewn perthynas ag amddiffyn y plant eraill.

Pan aeth yn ôl i fyw gyda'i fam a'i frodyr a'i chwiorydd, cafodd y cynllun amddiffyn plentyn a oedd wedi'i lunio ar ei gyfer ef ei gadw, ond unwaith eto, ni roddwyd unrhyw ystyriaeth i'r perygl yr oedd ef yn ei achosi i'w frodyr a'i chwiorydd. Cofnodwyd nifer o ddigwyddiadau o drais tuag atynt hwy ganddo ef. Roedd adroddiad ei fod wedi bod yn cario bat pêl fas a bod ganddo arf arall, ond ni wnaeth y naill asiantaeth na'r llall ymchwilio i hyn.

Roedd gan Jack gariad hefyd, a oedd yn 14 oed, ond nid oedd neb wedi ystyried a oedd perygl y gallai achosi niwed iddi hi.

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant**

3.25. Roeddem yn synnu gweld dangosyddion camfanteisio'n rhywiol ar blant yn codi dro ar ôl tro mewn llawer o'r achosion a arolygwyd gennym. Gwelsom rywfaint o amheuaeth neu ffactorau'n cael eu nodi ym mhob un bron o'r achosion yn ymwneud â merched a menywod ifanc ac mewn nifer fach o'r achosion a oedd yn ymwneud â bechgyn a dynion ifanc.

3.26. Roedd gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd ymateb amlasiantaeth a oedd wedi cael eu ddatblygu i ryw raddau. Roedd paneli amlasiantaeth wedi cael eu sefydlu mewn rhai ardaloedd er mwyn nodi dioddefwyr posibl, ac mewn rhai achosion gwelsom waith partneriaeth effeithiol er mwyn amddiffyn y dioddefwr, ymyrryd ac atal y troseddwr.

**Enghraifft o ymarfer da: gwaith yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant**

Yn Calderdale roedd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant wedi sefydlu grŵp gweithredol amlasiantaeth i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ac roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn chwarae rhan weithredol yn y grŵp. Roedd ymarfer gweithredol amlasiantaeth effeithiol yn cael ei arwain gan yr heddlu o amgylch plant a phobl ifanc agored i niwed. Roedd y defnydd o offeryn penodol i reoli risg a chyfarfodydd monitro misol wedi'i sefydlu'n dda ac yn weladwy yn yr achosion a welsom.

**Tîm Troseddwyr Ifanc Calderdale**

3.27. Mae hwn yn waith cymhleth iawn oherwydd yn aml iawn nid yw'r dioddefwr yn gweld ei hun fel dioddefwr a gall fod yn anodd gweithio gydag ef neu hi. Roeddem yn siomedig mewn rhai lleoedd i glywed bod plentyn neu berson ifanc yn "*gwrthod ymgysylltu"* oherwydd, yn ein barn ni, dyna waith yr ymarferwr.

**Enghraifft o ymarfer: methiant i ymgysylltu â pherson ifanc**

Ym mis Awst 2012, lluniwyd cynllun amddiffyn plentyn ar gyfer Rhianna, merch ifanc 14 oed, oherwydd pryder yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol. Tybid ei bod yn cael ei thargedu gan aelod o gang y gwyddid amdano a chanfuwyd bod ganddi gonorrhoea. Roedd ei thad wedi marw yn 2010. Roedd gan ei mam broblemau alcohol ac roedd eu perthynas dan bwysau. Roedd yn colli llawer o ysgol.

I ddechrau, roedd y teulu i fod i weithio gyda'r NSPCC. Roedd Rhianna yn ymddwyn yn elyniaethus tuag at ei gweithiwr cymdeithasol ac yn cadw draw o bob ymweliad statudol. Caeodd yr heddlu a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant eu hachosion ym mis Ebrill 2013.

Roedd yn anodd gweld pa gamau defnyddiol oedd wedi cael eu cymryd ac a oedd unrhyw newidiadau wedi digwydd yn ei bywyd o ganlyniad i ymwneud â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, yr heddlu a'r Tîm Troseddwyr Ifanc. Pan gaewyd yr achos roedd yn dal i beidio â mynd i'r ysgol ac roedd yn ymddangos mai diffyg ffactorau negyddol yn hytrach na chynnydd cadarnhaol oedd y tu ôl i'r penderfyniad i gau'r achos.

3.28. Mewn rhai lleoedd, fodd bynnag, gwelsom ymarferwyr Timau Troseddwyr Ifanc a phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd ac yn ymdrechu'n galed i ddatblygu ymddiriedaeth a gwneud gwaith amddiffynnol gyda phlant a phobl ifanc agored iawn i niwed. Yn Reading a Bromley gwelsom yr heddlu'n defnyddio hysbysiadau rhybudd herwgydio plentyn[9] fel ffordd o amddiffyn plant a phobl ifanc rhag oedolion yr aseswyd eu bod yn achosi perygl iddynt.

[9] Mae hysbysiadau rhybudd herwgydio plentyn yn nodi'r plentyn ac yn cadarnhau nad oes gan y sawl sydd dan amheuaeth ganiatâd i ymwneud â'r plentyn nac i gysylltu â'r plentyn neu gyfathrebu ag ef neu hi ac, os bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn dal i wneud hynny, y gallai'r sawl sydd dan amheuaeth gael ei arestio a'i erlyn am drosedd dan adran 2 o *Ddeddf Herwgydio Plant 1984* neu adran 49 o *Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1989* neu am unrhyw drosedd arall a gyflawnir mewn perthynas â'r plentyn hwnnw.

**Enghraifft o ymarfer da: gwaith amlasiantaeth yn ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant**

Roedd Sheila eisoes yn destun cynllun amddiffyn plant oherwydd esgeulustod pan dderbyniodd orchymyn atgyfeirio am wneud galwadau niwsans i'r heddlu. Gwnaethpwyd gorchymyn rhianta yr un pryd. Wrth i waith gyda'r teulu fynd yn ei flaen daeth yn amlwg bod perygl y byddai rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arni.

Yn dilyn cynnig a oedd wedi'i ystyried yn ofalus gan y Tîm Troseddwyr Ifanc i'r Panel Atgyfeirio ar ddechrau'r gorchymyn gwnaethpwyd gorchymyn estynedig i ganiatáu asesiad priodol drwy atgyfeiriadau at weithwyr iechyd corfforol a meddyliol a chamddefnyddio sylweddau. Yn y cyfamser dechreuwyd gwaith gan y gweithiwr rhianta, a oedd â pherthynas flaenorol â'r teulu, a sefydlwyd adolygiadau panel ffurfiol i'w cynnal yn amlach nag arfer er mwyn osgoi drifftio.

Ymdrechodd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn galed i ymgysylltu â Sheila a gwnaeth y gweithiwr rhianta lawer o waith i helpu'r teulu i ddeall beth roedd angen iddynt ei wneud er mwyn cadw Sheila yn ddiogel a chadw 'rheolaeth' arni. Ymatebodd yr heddlu i alwadau gan ei rhieni pan aeth ar goll a dod â hi'n ôl adref. Ar yr un pryd, roeddent yn ceisio casglu gwybodaeth am y dynion a oedd yn ymwneud â hi ac roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n dda rhwng yr holl asiantaethau. Pan ddechreuodd y Prosiect Ymyriadau Teuluol weithio gyda'r teulu, roedd wedi'i integreiddio'n dda â'r asiantaethau eraill. Roedd presenoldeb da mewn cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth a gynhelid bob pythefnos ac roeddent yn ystyried ei hanghenion hi a merched eraill a oedd mewn perygl.

Pan ddaeth y gorchymyn atgyfeirio i ben cynigiodd y Tîm Troseddwyr Ifanc gyfle i Sheila 'alw heibio' bob wythnos.

**Tîm Troseddwyr Ifanc Reading**

### Rhannu gwybodaeth rhwng Timau Troseddwyr Ifanc ac asiantaethau eraill

3.29. Ar wahân i Reading, lle'r oedd gwybodaeth wedi cael ei rhannu rhwng y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a'r Tîm Troseddwyr Ifanc (y ddwy ffordd) ym mhob achos, roedd Timau Troseddwyr Ifanc wedi rhannu gwybodaeth am faterion amddiffyn plant yn brydlon mewn llai na hanner yr achosion.

3.30. Nid oedd staff Timau Troseddwyr Ifanc bob amser yn cael gwybod gan Ymddiriedolaethau Prawf mewn achosion priodol, er enghraifft, os oedd rhyw awgrym y gallai oedolyn yn y cartref fod â chollfarn. Allan o 11 achos perthnasol, dim ond mewn 4 yr oedd ymholiadau wedi cael eu gwneud.

3.31. Roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu gan unedau amddiffyn plant yr heddlu yn bennaf drwy'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, ac roeddent yn dibynnu arnynt hwy i basio gwybodaeth ymlaen i'r Timau Troseddwyr Ifanc. Nid oedd systemau'r heddlu o gymorth bob amser er mwyn rhannu gwybodaeth. Roedd rôl swyddogion yr heddlu yn y Timau Troseddwyr Ifanc a arolygwyd yn amrywio. Mewn rhai ardaloedd tybid, er nad oedd hynny'n gywir bob amser, y byddai swyddogion yr heddlu mewn Timau Troseddwyr Ifanc yn cael gwybodaeth gan yr heddlu. Er bod swyddogion yr heddlu yn gofyn am wybodaeth ac yn rhannu gwybodaeth mewn rhai Timau Troseddwyr Ifanc, mewn eraill eu rôl oedd rhoi

rhybuddion a/neu weithio gyda dioddefwyr. Nid oedd ganddynt fynediad at gronfa ddata berthnasol yr heddlu bob amser. Nid oedd rheolwyr achosion eu hunain yn ymwybodol bob amser o'r angen i wirio gwybodaeth yr heddlu na'r defnydd a wneid ohoni.

3.32. Yn Sir y Fflint, roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn rheoli plant a phobl ifanc a oedd yn cael eu nodi fel rhai a oedd yn agored iawn i niwed drwy gyfarfod amlasiantaeth a oedd yn cael ei gadeirio ganddo; roedd y broses hon yn amlwg yn hwyluso rhannu gwybodaeth. Gwelsom hefyd gyswllt da â'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid lle'r oedd achos yn ymwneud â phlant neu bobl ifanc.

### Atgyfeiriadau

3.33. Roedd y rhan fwyaf o'r atgyfeiriadau a arolygwyd gennym yn cynnwys manylion llawn am y plentyn neu'r person ifanc a natur y pryder yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mewn dau Dîm Troseddwyr Ifanc (Bromley a Chaerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf) roedd hyn yn wir am bob un o'r atgyfeiriadau. Yn Bromley, gwelsom dystiolaeth o weithwyr y Tîm Troseddwyr Ifanc yn gofyn am wybodaeth gan yr heddlu am gysylltiad â gangiau ac yn cofnodi hynny yn eu hatgyfeiriadau. Roedd yr wybodaeth gan yr heddlu'n ddefnyddiol ac yn gynhwysfawr.

3.34. Nid oedd atgyfeiriadau'n cael eu cofnodi'n gyson rhwng gwahanol Dimau Troseddwyr Ifanc nac mewn timau unigol ac nid oedd rheolwyr achosion bob amser yn dilyn gweithdrefnau'r asiantaeth nac yn defnyddio sianeli ffurfiol. Weithiau defnyddid galwad ffôn neu ebost ac oherwydd hyn roedd yn anodd sicrhau bod ymateb yn cael ei dderbyn.

3.35. Roedd pob un ond un o'r atgyfeiriadau a welsom yn brydlon, ond nid oedd yr ymateb gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn brydlon mewn bron i hanner yr atgyfeiriadau; nid aeth y Tîm Troseddwyr Ifanc ar ôl hyn mewn 11 allan o 17 o achosion. Mewn bron i hanner yr atgyfeiriadau, daethom i'r casgliad bod yr ymateb gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn anfoddhaol mewn rhyw ffordd ac yn y rhan fwyaf o'r rhain ni chyfeiriodd y Tîm Troseddwyr Ifanc y mater i lefel uwch. Mewn rhai achosion, roedd yn ymddangos i ni bod rheolwyr achosion wedi bod yn rhy barod i ildio i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn eu hasesiad. Gwelsom well ymarfer yn Sir y Fflint:

**Enghraifft o ymarfer da: Tîm Troseddwyr Ifanc yn cyfeirio atgyfeiriad i lefel uwch**

Cafodd Roberta, a oedd yn 15 oed, ei chyfeirio gan y Tîm Troseddwyr Ifanc i sylw'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ddwywaith mewn misoedd olynol. I ddechrau teimlai'r Tîm Troseddwyr Ifanc ei bod yn cyrraedd y trothwy Plentyn mewn Angen ac o ganlyniad bod arni angen trefniadau amddiffyn plant ffurfiol. Roedd Roberta wedi ceisio lladd ei hun ac roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn credu bod perygl y byddai rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arni. Pan benderfynwyd mewn ymateb i'r ail atgyfeiriad na fyddai unrhyw gamau'n cael eu cymryd, cyfeiriodd y Tîm Troseddwyr Ifanc yr atgyfeiriad i lefel uwch gan nodi nad oedd y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn dilyn eu canllawiau eu hunain. Arweiniodd hyn at gyfarfod o weithwyr proffesiynol yn fuan wedyn lle daeth Roberta yn Blentyn mewn Angen a darparwyd ymateb amlasiantaeth mewn ymdrech i'w hamddiffyn rhag camfanteisio rhywiol.

**Tîm Troseddwyr Ifanc Sir y Fflint**

3.36. Nid oedd gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc yn deall yn iawn bob amser beth oedd y trothwyon ar gyfer cyfeirio at wasanaethau gofal cymdeithasol plant. Yng Nghaerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf roedd y polisi'n nodi y gallai gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc gysylltu â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a gofyn os nad oeddent yn siŵr. Mewn rhai achosion, nid oedd yn glir beth roedd ar y Tîm Troseddwyr Ifanc eisiau i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ei wneud na beth roedd yn disgwyl iddynt ei wneud.

**Enghreifftiau o ymarfer: atgyfeiriadau aneglur**

Roedd Ada yn 17 oed ac roedd wedi cael ei chyfeirio oherwydd y perygl o drais domestig gan ei chariad. Roedd yn byw'n annibynnol a phan wnaeth hi a'i chariad ddadlau ei hymateb oedd yfed gormod o alcohol a niweidio'u hun/ceisio lladd ei hun. Nid oedd yn glir beth roedd ar reolwr yr achos eisiau i weithiwr cymdeithasol ei wneud na beth roedd yn disgwyl iddo'i wneud.

Roedd Pietro yn 14 oed ac wedi cael ei fygwth ar Facebook. Ymddengys bod amheuaeth ynglŷn ag ymddygiad y person ifanc ei hun hefyd. Gwnaeth y gweithiwr achos atgyfeiriad pan ddylai fod wedi cysylltu â'r heddlu.

### Goruchwyliaeth y rheolwyr

3.37. Nid yw plant a phobl ifanc sy'n troseddu bob amser yn cael eu gweld fel rhai sydd angen eu hamddiffyn ac, o ganlyniad, mae goruchwyliaeth y rheolwyr yn bwysig iawn. Roedd ansawdd goruchwyliaeth y rheolwyr yn amrywio yn yr achosion a arolygwyd gennym. Mewn rhai Timau Troseddwyr Ifanc, roedd rheolwyr yn ymwneud yn weithredol â rheoli achosion, ond mewn eraill roeddent yn cadarnhau drwy lofnod, heb herio, gwaith a oedd yn ein barn ni'n anfoddhaol.

3.38. Roedd rheolwyr yn ymwneud â mathau amrywiol o baneli er mwyn gwneud plant a phobl ifanc yn llai agored i niwed, ac yn y rhai mwyaf defnyddiol yn ein barn ni roedd trafodaeth ystyriol yn aml gydag ymarferwyr eraill.

3.39. Roedd rhai rheolwyr yn defnyddio gwybodaeth rheoli perfformiad i ddibenion monitro a hefyd i geisio sicrhau gwelliant parhaus (roedd Tîm Troseddwyr Ifanc

Calderdale wedi gwneud archwiliad o gynlluniau rheoli pa mor agored i niwed yw plant a phobl ifanc er mwyn helpu i sicrhau gwelliant) tra'r oedd eraill yn eu defnyddio dim ond er mwyn gwneud yn siŵr bod prosesau wedi cael eu cwblhau.

3.40. Mewn rhai timau troseddwyr ifanc, roedd bod yn agored i niwed ac amddiffyn plant yn uchel ar yr agenda yng nghyswllt goruchwylio; mewn eraill roedd rheolwyr yn fwy adweithiol a dim ond pan oedd yn cael ei godi gan reolwyr achos yr oedd yn cael ei drafod. Yng Nghaerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf roeddent wedi archwilio cofnodion goruchwylio er mwyn gwneud yn siŵr bod diogelu'n cael ei drafod. Yn Ninas Nottingham roedd y newid i drefniadau goruchwylio mwy ystyriol yn gysylltiedig â'r broses sicrhau ansawdd a'r defnydd o ymarferwyr arbenigol i hyfforddi lle nodwyd bod angen hynny.

3.41. Teimlai rheolwyr achosion fod prosesau ar gyfer cyfeirio materion i lefel uwch yn effeithiol pan oeddent yn cael eu defnyddio ond, gan nad oedd rhai rheolwyr achos yn siŵr iawn beth oedd y trothwyon, nid oeddem yn siŵr a oeddent yn cael eu rhoi ar waith yn briodol bob tro. Roedd y ffaith nad oedd atgyfeiriadau'n cael eu monitro yn golygu ei bod yn anodd i reolwyr gael barn ddeallus ynglŷn ag ymateb cyffredinol y gwasanaethau gofal plant cymdeithasol.

## Casgliad

3.42. Roedd systemau da'n bodoli mewn Timau Troseddwyr Ifanc er mwyn nodi plant a phobl ifanc a oedd yn hysbys i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac, ar y cyfan, roedd y systemau ar gyfer cyfeirio achosion i sylw'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn gweithio. Ond er bod y systemau'n effeithiol ar y cyfan, nid oedd y staff i gyd yn hyderus wrth ymdrin â'r maes gwaith hwn ac roedd angen iddynt gael dealltwriaeth gliriach o'u rôl mewn gwaith amddiffyn plant amlasiantaeth cymhleth er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn yn iawn.

3.43. Nid oedd ansawdd y gwaith o asesu pa mor agored i niwed oedd unigolion a chynllunio ar eu cyfer yn gyson. Nid oedd y ffactorau a nodwyd yn cael eu cydnabod bob amser fel rhai a oedd yn gwneud y plentyn neu'r person ifanc yn fwy agored i niwed, nid oedd rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys ac nid oedd ymweliadau cartref yn cael eu gwneud bob tro. Yn ein barn ni, ni ellir gwneud asesiad iawn o anghenion plentyn neu berson ifanc, na'r angen i'w amddiffyn heb weld ei gartref a siarad gyda'r rhai sy'n byw gydag ef neu hi.

3.44. Er gwaetha'r meysydd hyn y mae angen eu gwella, roedd staff Timau Troseddwyr Ifanc yn gweithio'n galed ac yn rhagweithiol i helpu amddiffyn plant a phobl ifanc. Gwelsom waith uniongyrchol rhagorol, llawn dychymyg, gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Gwelsom hefyd rywfaint o waith partneriaeth a chydweithio da. Yn gyffredinol, yn y rhan fwyaf o leoedd, mae angen i Dimau Troseddwyr Ifanc adeiladu ar y systemau a'r arferion presennol a'u datblygu er mwyn sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl yn cael ei wneud i amddiffyn plant a phobl ifanc.

# 4. Rheolaeth ac arweiniad


**Crynodeb**

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu cenedlaethol a lleol sy'n gysylltiedig â'r gwaith o amddiffyn plant a phobl ifanc. Mae'n gwerthuso trefniadau'r Ymddiriedolaethau Prawf a'r Timau Troseddwyr Ifanc, eu cyfraniad i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant a sut y maent yn ei herio.


**Canfyddiadau allweddol**

- Roedd gan yr Ymddiriedolaethau Prawf a'r Timau Troseddwyr Ifanc bolisïau a gweithdrefnau a chanllawiau lleol ar gyfrifoldebau amlasiantaeth i'w galluogi i gyfrannu tuag at y gwaith o amddiffyn plant a phobl ifanc.
- Nid oedd rheolwyr strategol yn rhoi blaenoriaeth bob amser i waith diogelu mewn Ymddiriedolaethau Prawf.
- Nid yw canllawiau NOMS wedi cael eu diweddaru i gynnwys *Working Together to Safeguard Children 2013*.
- Nid oedd cysylltiadau effeithiol wedi'u sefydlu bob amser rhwng Byrddau Lleol Diogelu Plant a Byrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc.
- Nid oedd effaith Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc ar waith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn amlwg bob amser ac nid oedd y Bwrdd yn archwilio'r cyfraniad nac yn ei herio.
- Roedd data a oedd yn cael ei monitro gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant yn canolbwyntio ar brosesau gofal cymdeithasol plant yn hytrach na chanlyniadau.

## Prawf

### Cenedlaethol

4.1. Roedd y canllawiau a oedd wedi'u darparu i Ymddiriedolaethau Prawf, *Safeguarding Children – Checklist for Offender Managers,* wedi cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2009 gan NOMS. O ganlyniad, nid oeddent yn ystyried canllawiau *Working Together* 2010 ac nid oeddent wedi cael eu diweddaru i ystyried y fersiwn wedi'i ddiweddaru, *Working Together to Safeguard Children 2013.* Golygai hyn nad oedd y canllawiau cenedlaethol mor gyfredol â'r canllawiau a'r arferion lleol.

4.2. Yn 2010 sefydlodd NOMS swydd benodol, Uwch Ddatblygwr Polisi, â chyfrifoldeb dros weithio ar draws y Llywodraeth i lunio strategaeth NOMS a sicrhau bod diogelu'n cael sylw ym mhob polisi newydd. Yn fwyaf arbennig, rhagwelid y byddai'r gwersi a ddysgwyd o Adolygiadau Achosion Difrifol yn cael eu rhannu gyda phawb yn y sefydliad. O safbwynt ymarferol, nid yw hyn wedi dwyn ffrwyth eto. Yn ychwanegol at hyn cyhoeddwyd Cyfarwyddyd Prawf[10] yn ymwneud â mynediad at wybodaeth ar statws gwaharddedig troseddwyr a chyhoeddwyd newidiadau i drefniadau'r gorchymyn anghymhwyso ym mis Chwefror 2014.

☐

[10] *Probation Instruction: 02/2014 - Safeguarding of children and vulnerable adults* Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, NOMS 2014.

## Lleol

4.3. Roedd gan bob un o'r Ymddiriedolaethau Prawf yr ymwelsom â hwy uwch reolwr â chyfrifoldeb strategol am waith amddiffyn plant, ond roedd rhai'n gwneud mwy na'i gilydd ac nid oedd amddiffyn plant yn cael ei weld fel blaenoriaeth strategol bob amser. Roedd Llundain wedi mynd ati i geisio gwella'r proffil. Roedd rheolwr wedi'i benodi i ddatblygu'r ymarfer ar draws y ddinas. Roedd gan bob un o unedau cyflawni lleol y gwasanaeth prawf hyrwyddwyr er mwyn hyrwyddo a chefnogi ymarfer. Yng Nghymru roedd ffrwd waith benodol dan y cynllun Rhagoriaeth mewn Rheoli Troseddwyr.

4.4. Roedd polisïau a/neu weithdrefnau ym mhob ardal yn ymwneud â nodi, atgyfeirio a chyfranu at waith y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, ond nid oedd pob un yn gyfredol, nid oedd pob un yn gyfarwydd i reolwyr troseddwyr ac nid oedd pob un yn cael ei ddilyn. Ychydig o ganllawiau a welsom ynglŷn â'r math o waith y gallai rheolwyr troseddwyr eu hunain fod yn ei gyflawni, ac nid oedd llawer o help i feddwl beth yw eu rôl mewn gwaith amddiffyn plant. Roedd gan y rhan fwyaf o'r Ymddiriedolaethau ryw fath o archwiliadau sicrhau ansawdd ac er mai ychydig oedd wedi targedu achosion amddiffyn plant yn benodol, roedd tystiolaeth bod materion amddiffyn plant wedi cael eu cydnabod. Roedd Dyffryn Tafwys wedi sefydlu proses archwilio yn dilyn ein harolygiad yn 2010[11] a oedd yn tynnu sylw at yr angen i wneud hynny.

4.5. Roedd pob un o'r rheolwyr troseddwyr a gyfwelwyd gennym wedi cael rhyw fath o hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol, ond nid oedd yr hyfforddiant i gyd wedi'i ddilyn yn ddiweddar ac roedd nifer fach yn teimlo nad oedd wedi bod o fudd iddynt. Mewn rhai ardaloedd, roedd staff prawf yn ymwneud â darparu hyfforddiant amlasiantaeth drwy is-grŵp hyfforddiant y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, ond mewn eraill nid oedd y gwasanaethau prawf hyd yn oed yn cael eu cynrychioli yn yr is-grŵp. Er hyn, teimlai llai na hanner y rhai a gyfwelwyd gennym eu bod wedi cael eu paratoi'n iawn i wneud gwaith amddiffyn plant a dywedodd eu chwarter nad oeddent yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau eu hasiantaeth. Dywedodd mwy na'u chwarter nad oeddent yn deall trothwyon atgyfeirio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Yn Llundain, cydnabuwyd bod ar reolwyr troseddwyr angen hyfforddiant mwy penodol ac roedd yr NSPCC wedi cael ei gomisiynu i'w ddarparu. Yn Nyffryn Tafwys, dywedwyd wrthym fod y staff wedi cael rhywfaint o hyfforddiant yn y dull *Arwyddion Diogelwch,* ond ni welsom dystiolaeth o hyn mewn ffeiliau achosion. Yng Nghymru, roedd y model hwn wedi bod yn cael ei ddefnyddio mewn rhan o'r Ymddiriedolaeth ers rhai blynyddoedd.

4.6. At ei gilydd, roedd uwch reolwyr a/neu reolwyr gweithredol o Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc yn mynd i gyfarfodydd Byrddau Lleol Diogelu Plant, er bod hyn yn dameidiog mewn rhai lleoedd. Roedd yn sicr yn feichus yn yr ardaloedd lle'r oedd nifer o Fyrddau Lleol Diogelu Plant nad oeddent yn gydnaws ag unedau cyflawni lleol y gwasanaeth prawf. Er enghraifft, yn Nyffryn Tafwys mae naw Bwrdd Lleol Diogelu Plant a phum uned gyflawni leol; yn ychwanegol at hyn mae is-grwpiau Byrddau Lleol Diogelu Plant.

☐

[11] *http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/inspectorate-reports/hmiprobation/adult-inspection-reports/omi2/Thames_Valley_OMI_2_Report-rps.pdf*

4.7. Yn aml iawn nid oedd y cysylltiadau rhwng y MARAC, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) a chyfarfodydd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant megis grwpiau craidd a chynadleddau yn glir. Mewn rhai lleoedd, dywedwyd wrthym nad oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn bresennol mewn cyfarfodydd MARAC a/neu MAPPA perthnasol (lle'r oedd materion amddiffyn plant) ac mae'n debyg bod hynny'n adlewyrchu presenoldeb anghyson staff prawf mewn cyfarfodydd a oedd yn cael eu trefnu gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant. Yn Llundain, cytunwyd ar brotocol rhwng MAPPA a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

## Timau Troseddwyr Ifanc

### Cenedlaethol

4.8. Amcan strategol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yw helpu amddiffyn plant a phobl ifanc:
*'Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ar draws y gymuned ac yn comisiynu'r ystâd ddiogel i hyrwyddo diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol.'*

4.9. Ar adeg yr arolygiad, roedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn paratoi *Datganiad ar Ddiogelu* a fyddai'n amlinellu safbwynt y sefydliad ar amddiffyn plant.

4.10. Yn 2013 lansiwyd gweithdrefn newydd ar gyfer monitro ymateb y Tîm Troseddwyr Ifanc i ddigwyddiadau diogelu difrifol, a sefydlwyd Gweithgor Digwyddiadau Diogelu ac Amddiffyn y Cyhoedd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i oruchwylio'r broses. Mae'r grŵp yn adrodd i Banel Llywodraethu Diogelu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, sy'n darparu goruchwyliaeth a rheolaeth strategol i ddiogelu amlasiantaeth. Ar adeg yr arolygiad, roedd yn rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd y system newydd.

4.11. Ni allem weld canllawiau cenedlaethol a oedd wedi eu hanelu at amgylchiadau penodol plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a'u hanghenion diogelu perthynol.

### Lleol

4.12. Mae Timau Troseddwyr Ifanc yn cael eu llywodraethu drwy fwrdd rheoli sydd â'i aelodau'n uwch swyddogion o asiantaethau statudol gwasanaethau gofal cymdeithasol plant (â chynrychiolaeth o fyd addysg), yr heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth iechyd. Dros gyfnod, mewn rhai lleoedd, mae'r byrddau hyn wedi cael eu llyncu neu eu huno i greu fformatau amrywiol dan strwythurau awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae endid amlwg i'w weld.

4.13. Y bwriad gwreiddiol pan sefydlwyd Timau Troseddwyr Ifanc, drwy secondio gweithwyr cymdeithasol i Dimau Troseddwyr Ifanc o wasanaethau gofal cymdeithasol plant, oedd sicrhau bod gan y sefydliad wybodaeth am ddiogelu ac arbenigedd. Nid yw secondio i Dimau Troseddwyr Ifanc mor gyffredin erbyn hyn ac mae gan lai o weithwyr Timau Troseddwyr Ifanc brofiad uniongyrchol ym maes amddiffyn plant. Er bod y rhan fwyaf o'r rheolwyr achosion yn teimlo eu bod wedi

cael eu paratoi'n iawn i wneud gwaith amddiffyn plant, roedd dros draean ohonynt yn llai hyderus. Dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn gwbl gyfarwydd â'r gweithdrefnau amddiffyn plant yn eu Tîm Troseddwyr Ifanc ond dywedodd eu chwarter mai dim ond rhannol ymwybodol oeddent o'r gweithdrefnau.

4.14. Roedd y rhan fwyaf o'r rheolwyr achosion wedi cael hyfforddiant amlasiantaeth yn ymwneud ag amddiffyn plant. Mewn rhai achosion, roedd yr hyfforddiant wedi dyddio cryn dipyn. Nid oedd y rheolwyr yn monitro hyn bob amser ac nid oedd cofnodion hyfforddi'n gynhwysfawr bob tro. Mewn un Tîm Troseddwyr Ifanc gwelsom weithiwr a oedd wedi cael ei secondio am ddwy flynedd ac nad oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant amddiffyn plant. Yn Reading, mae rheolwyr achosion yn treulio diwrnod gyda thimau gwasanaethau gofal cymdeithasol plant amrywiol fel rhan o'u proses gynefino ac mae gweithwyr cymdeithasol newydd yn treulio rhywfaint o amser yn y Tîm Troseddwyr Ifanc.

4.15. Nid oedd cysylltiadau a llinellau cyfathrebu rhwng Byrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc a'r Byrddau Lleol Diogelu Plant bob amser yn ffurfiol nac wedi'u sefydlu'n dda ac nid oedd Timau Troseddwyr Ifanc bob amser yn cael eu cynrychioli'n uniongyrchol yn y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Dywedwyd wrthym yn aml bod y sawl a oedd yn cynrychioli gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant hefyd yn cynrychioli'r Tîm Troseddwyr Ifanc, ond at ei gilydd ni welsom unrhyw dystiolaeth mewn cofnodion o drafodaeth ynglŷn ag anghenion diogelu penodol plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.

**Enghraifft o ymarfer da: trefniadau diogelu strategol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu**

Yn Nottingham, roedd Fforwm Sicrwydd Diogelu wedi cael ei sefydlu. Ei bwrpas oedd darparu trosolwg o risgiau a materion yn ymwneud â diogelu yn y system a rhoi tystiolaeth o oruchwyliaeth effeithiol o wasanaethau diogelu a chymorth cynnar Cyngor Dinas Nottingham. Roedd cadeirydd annibynnol Bwrdd Rheoli'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn aelod a chyfrannwr gweithgar, ac yn sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu'n cael eu hystyried bob amser.

**Tîm Troseddwyr Ifanc Dinas Nottingham**

### Gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a Byrddau Lleol Diogelu Plant

4.16. Roedd y gwaith o gyflwyno Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol (MASH), y cyfeirir atynt dan enw gwahanol mewn rhai ardaloedd, yn amrywio o ran ei ddatblygiad. Yn gyffredinol, roedd y canolfannau hyn yn cydleoli nifer o wahanol asiantaethau a all gynnwys yr heddlu, gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, addysg, Ymddiriedolaethau Prawf a staff iechyd i dderbyn ymholiadau cychwynnol ynglŷn â diogelu ac amddiffyn plant a rhannu gwybodaeth. Er hyn, roedd gan y Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol strwythurau gwahanol, ac nid oeddent i gyd yn cyflawni'r un prosesau. Lle'r oedd canolfan o'r fath wedi'i sefydlu, roedd y systemau a'r prosesau ar y cyfan yn well. Er enghraifft, mae'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol yn Reading wedi arwain at brosesau atgyfeirio ac asesu symlach a chyflymach.

4.17. Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn dod i gysylltiad â'r Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol fel arfer wrth atgyfeirio achosion. Roedd Calderdale wedi treialu cynllun secondio gweithiwr ond gwelwyd bod hwn yn wastraff ar adnoddau. O'r rheolwyr achosion a gyfwelwyd gennym, roedd ychydig yn fwy na'u hanner yn teimlo ei bod yn hawdd mynd at y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a'u bod yn eu helpu i ddeall materion yn ymwneud ag amddiffyn plant.

4.18. Nid oedd cofnodion Byrddau Lleol Diogelu Plant yn dangos llawer o dystiolaeth bod cynrychiolwyr y gwasanaeth prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc yn dangos pendantrwydd wrth godi materion nac ychwaith bod y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â hwy neu eu herio. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, roedd yn anodd gweld bod cyfraniad y naill asiantaeth na'r llall wedi cael effaith amlwg. Mewn un ardal lle'r oedd problemau amlwg yn ymwneud â'r modd yr oedd gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn rhannu gwybodaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Prawf, ni allem weld tystiolaeth bod hyn wedi cael ei godi gan gynrychiolydd y gwasanaethau prawf ar y bwrdd. O edrych yn ehangach, ni welsom fod unrhyw un o'r Byrddau Lleol Diogelu Plant wedi archwilio'r newidiadau pellgyrhaeddol i strwythurau prawf sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gydweithio - creu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

4.19. Nid oedd Ymddiriedolaethau Prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc yn ymwneud llawer iawn ag is-grwpiau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant a oedd â chyfrifoldeb am archwilio achosion ar sail amlasiantaeth. Mewn un ardal dywedwyd wrthym na allai'r gwasanaeth prawf gymryd rhan gan nad oedd y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn barod i rannu eu ffeiliau am resymau cyfreithiol. Roeddem yn synnu bod y Bwrdd Lleol Diogelu Plant wedi derbyn hyn. Mewn mwy nag un ardal roedd Trosedd Bellach Ddifrifol wedi'i chyflawni yn erbyn plentyn gan droseddwr a oedd yn hysbys i'r gwasanaeth prawf ond nid oedd hyn wedi cael ei drafod gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

4.20. Ychydig iawn o ddata canlyniadau oedd ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o'r Byrddau Lleol Diogelu Plant. Roedd hynny o ddata a oedd ar gael yn canolbwyntio at ei gilydd ar brosesau gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Ni welsom unrhyw ddata, er enghraifft, a allai ddweud wrthym faint o blant a phobl ifanc â chynlluniau amddiffyn oedd hefyd yn hysbys i'r gwasanaeth prawf. Yn yr un modd, ar wahân i Ddinas Nottingham, ni welsom unrhyw ddata a oedd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a oedd yn gweithio gyda Thimau Troseddwyr Ifanc. Gan fod Byrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc yn canolbwyntio at ei gilydd ar ymddygiad troseddol, roedd hyn yn gadael bwlch posibl yn y trosolwg strategol o anghenion diogelu penodol plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu.

**Enghraifft o ymarfer da: y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu**

Mae gan Dîm Troseddwyr Ifanc Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf bolisi Diogelu Plant yn y Ddalfa ac mae'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn monitro plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw dros nos yng nghelloedd yr heddlu yn rheolaidd. Mae'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant wedi cael ei hysbysu ynglŷn â hyn. Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc hefyd wedi cynhyrchu brîff ar blant a phobl ifanc yn y ddalfa ar gyfer uwch reolwyr strategol. Mae'r Bwrdd Lleol Diogelu plant wedi monitro cynllun gweithredu er mwyn gweithredu argymhellion a wnaethpwyd gan adroddiad cydarolygiad thematig (*Who's Looking out for the Children?*[12]) ynglŷn â phlant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw yng nghelloedd yr heddlu.

**Tîm Troseddwyr Ifanc Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf**

**Casgliad**

4.21. Roedd rheolaeth strategol gwaith diogelu ym maes prawf yn anghyson. Yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd roedd yr uwch reolwyr yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth staff a gwella proffil y gwaith, ond fel arfer un cyfrifoldeb o blith llawer o rai eraill oedd hyn ac nid oedd bob amser yn flaenoriaeth. Er eu bod yn sicrhau bod hyfforddiant sylfaenol yn cael ei ddarparu i'r staff, ni welsom lawer o dystiolaeth o fonitro er mwyn sicrhau bod sgiliau'n gyfredol. Nid yw NOMS wedi dangos arweiniad yn y maes gwaith hwn.

4.22. Ni allem weld bod Byrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc yn edrych yn rhagweithiol ar anghenion diogelu penodol plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Ni allem weld unrhyw dystiolaeth ychwaith bod eu canlyniadau diogelu'n hysbys nac wedi cael eu gwella o ganlyniad i unrhyw gamau a gymerwyd gan y byrddau.

4.23. Yn gyffredinol, roedd yr Ymddiriedolaethau Prawf yn cael eu cynrychioli ar y prif Fwrdd Lleol Diogelu Plant, er bod hyn yn arwain at oblygiadau o ran adnoddau mewn rhai ymddiriedolaethau, ond roedd yn anodd gweld effaith y gwasanaeth prawf yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Roedd presenoldeb staff Timau Troseddwyr Ifanc yn amrywio, ond unwaith eto nid oedd effaith eu cyfraniad yn weladwy bob amser.

4.24. Yn bwysig iawn, roedd diffyg sylw penodol i faterion prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc mewn Byrddau Lleol Diogelu Plant yn golygu mai ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael, os o gwbl, i ganfod pa mor effeithiol yr oedd camau wedi bod er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc yr oedd yr asiantaethau hyn mewn cysylltiad â hwy a'u cadw'n ddiogel.

4.25. Roedd yn ymddangos bod yr agenda yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd Byrddau Lleol Diogelu Plant yn cael ei phennu gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant; nid oedd busnes prawf a Thimau Troseddwyr Ifanc yn cael ei ystyried yn hanfodol bob tro. Lle'r oedd data'n cael eu casglu a'u harchwilio gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, roeddent yn canolbwyntio ar brosesau gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Nid yw'r ystyriaeth a'r pwysoliad a roddir i faterion yn ymwneud â diogelu a wynebir

☐

[12] *http://www.justice.gov.uk/downloads/publications/inspectorate-reports/hmipris/thematic-reports-and-research-publications/whos-looking-after-children.pdf*

gan blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu a'r risgiau sy'n cael eu hachosi gan oedolion sy'n droseddwyr yn ddigonol. Mae hyn yn effeithio ar waith amlasiantaeth ac wrth i'r newidiadau a fydd yn digwydd o ganlyniad i strategaeth *Gweddnewid Adsefydlu* y Llywodraeth ddod i drefn bydd yn hanfodol bod y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn ogystal â Thimau Troseddwyr Ifanc yn ymgysylltu'n effeithiol â'r materion strategol hyn.

## Atodiad 1: Geirfa

| | |
|---|---|
| ACPO | Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu |
| Adroddiad cyn dedfrydu | Adroddiad ar gyfer y llys |
| AGGCC | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| ASSET | Offeryn asesu strwythuredig yn seiliedig ar ymchwil ac wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid sy'n edrych ar drosedd y plentyn neu'r person ifanc, amgylchiadau personol, agweddau a chredoau sydd wedi cyfrannu tuag at ei ymddygiad troseddol |
| BCI | Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr |
| Bwrdd Lleol Diogelu Plant | Wedi'i sefydlu ym mhob awdurdod lleol (o ganlyniad i Ddeddf Plant 2004) i gydgysylltu a sicrhau effeithiolrwydd gwaith amlasiantaeth i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ardal honno |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac ymddygiadol arbenigol i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed o leiaf |
| Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol | Cyfarfod er mwyn diffinio lefel perygl i blentyn a sefydlu cynlluniau i'w amddiffyn os oes angen |
| Cynllun Rheoli pa mor Agored i Niwed yw Plentyn neu Berson Ifanc (VMP) | Cynllun sy'n cael ei ddefnyddio gan Dimau Troseddwyr Ifanc i reoli'r anghenion diogelu a nodwyd ar gyfer plentyn neu berson ifanc unigol |
| Diogelu | Y gallu i ddangos bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau bod cyn lleied ag sy'n bosibl o berygl i blentyn neu berson ifanc gael niwed |
| EM | Ei Mawrhydi |
| Estyn | Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| HMCPSI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi |
| HMI Constabulary | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi |
| HMI Prisons | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi |

| | |
|---|---|
| Hysbysiad rhybudd herwgydio plentyn | Ymyriad diogelu sy'n anelu at amddiffyn plant rhag oedolion y credir eu bod yn eu rhoi mewn perygl. Maent yn cael eu gwneud dan *Ddeddf Herwgydio Plant 1984* ar gyfer y rhai sydd dan 16 oed ac o dan *Deddf Plant 1989* ar gyfer y rhai sydd dan 18 oed AC yng ngofal yr awdurdod lleol |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: lle mae'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol er mwyn rheoli troseddwyr sy'n achosi risg uwch o niwed i eraill |
| MARAC | Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg: trefniadau lleol er mwyn amddiffyn dioddefwyr trais domestig |
| MASH | Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol: trefniadau canolog lleol ar gyfer ymholiadau diogelu ac amddiffyn plant cychwynnol |
| NOMS | Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: yr asiantaeth unigol sy'n gyfrifol am garchardai ac Ymddiriedolaethau Prawf |
| Ofsted | Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau: yr Arolygiaeth ar gyfer y gwasanaethau hynny yn Lloegr (yr Arolygiaeth yng Nghymru yw Estyn) |
| Perygl o niwed i eraill | Defnyddir y term hwn yn gyffredinol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i ddisgrifio gwaith er mwyn amddiffyn y cyhoedd, gan ddefnyddio ymyriadau cyfyngol yn bennaf, er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael cyn lleied ag sy'n bosibl o gyfle i ymddwyn mewn ffordd sy'n achosi perygl o niwed i eraill |
| Trosedd Bellach Ddifrifol | Pan fydd troseddwr yn cael ei gyhuddo o drosedd sy'n cael ei hystyried yn Drosedd Bellach Ddifrifol (troseddau rhywiol neu dreisgar difrifol) bydd yr Ymddiriedolaeth Prawf yn cynnal ymchwiliad ac adolygiad o'r modd y rheolwyd yr achos |
| Uned Gyflawni Leol | Uned weithredu sy'n cynnwys swyddfa neu swyddfeydd prawf. Mae Unedau Cyflawni Lleol fel arfer yn rhannu'r un ffiniau ag unedau rheoli sylfaenol yr heddlu a strwythurau awdurdodau lleol |
| YOT/YOS/YJS | Y Tîm Troseddwyr Ifanc/Y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc/Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |

# Atodiad 2: Rôl yr arolygiaeth a'i chod ymarfer

### Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Mae gwybodaeth am Rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'i Chod Ymarfer i'w gweld ar ein gwefan:

**http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation**

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylw ynglŷn ag arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n rhan o'i chylch gwaith anfon llythyr wedi'i gyfeirio at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*1st Floor, Manchester Civil Justice Centre*
*1 Bridge Street West*
*Manchester M3 3FX*

## Atodiad 3: Cyfeiriadau


Yr Adran Addysg (Mawrth 2013) *Working Together to Safeguard Children 2013. A guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children.*

Uned Amddiffyn y Cyhoedd NOMS (Medi 2009) *Safeguarding Children – Checklist for Offender Managers*

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2013) *Case Management Guidance*

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2013) *National Standards for Youth Justice Services*

Yr Adran Addysg (2011) *The Munro Review of Child Protection: Final Report*

Llywodraeth Ei Mawrhydi *Deddf Plant 1989 (Diwygiwyd 2004)*

Llywodraeth Cynulliad Cymru *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*

ACPO a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2010) *The YOT Police Officer Review and Role Development*

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2014) *The Role of the YOT Police Officer*

Grŵp Rheoli Troseddwyr ac Amddiffyn y Cyhoedd NOMS (Ionawr 2014) *Probation Instruction 02/2014 Safeguarding of children and vulnerable adults – changes to disqualification order regime - access to information on barred status of offenders*

Cydarolygiad Cyfiawnder Troseddol (2011) *Who's looking out for the children? A joint inspection of Appropriate Adult provision and children in detention after charge.*

Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (2013) *Corporate Plan 2013-2016 and Business Plan 2013/2014*

# Atodiad 4: Enghraifft o Restr Gyfeirio Diogelu Plant

RESTRICTED

London
Probation Trust

APPENDIX 3

SAFEGUARDING CHILDREN CHECKLIST

When conducting an interview with the offender, it is imperative to include the assessment of possible safeguarding children concerns in order to include these in any risk assessment, risk management plan and sentence plan. Below is a quick checklist to assist in doing an initial assessment to decide if a further check is required from Children's Social Care or not: (*Please note this is not a comprehensive assessment, just a checklist to alert you to any possible safeguarding children concerns that need to be further investigated and assessed. Any "YES" should lead to a Safeguarding Children Check)*

**1. Are you living with children (including siblings under 18 years)?**
**Yes / No**

**If yes, please comment how they are related to you:**

______________________________

______________________________

**2. Do you have overnight contact with children who are not normally living with you, or any other significant contact with other children (e.g. nieces, nephews, stepchildren from previous relationships)?**
**Yes / No**

**If yes, please give details:**

______________________________

______________________________

**3. Do you have any parental responsibilities? Yes / No**
**If yes, what is the nature of your parental responsibilities and what is your child(ren)'s age group?**

______________________________

______________________________

**4. Do your child(ren) have contact with the Police, gangs, social workers, etc? Yes / No**

**If yes, please give details:**

______________________________

______________________________

**5. Is your child(ren) excluded from school? Have they been previously excluded from school? Yes / No**

**If yes, please give details:**

______________________________

______________________________

**6. Were your child(ren) present when you committed this or previous offence(s)? Yes / No**

**If yes, please give details:**

______________________________

______________________________

RESTRICTED
31

13/11 2013 10:44 FAX 01698828376

RESTRICTED

London Probation Trust

APPENDIX 4

## SAFEGUARDING CHILDREN CHECK

## Request for Information from Children's Social Care

| | |
|---|---|
| TO: Children's Social Care, London Borough of ……….. | **FROM:** London Probation Trust<br>**Offender manager:** |
| **Address:** | **Address:** |
| **Telephone:** | **Telephone:** |
| **Fax:** | **Fax:** |
| **Email:** | **Email:** |

**Name of Defendant:**

**(including known aliases)**

**Date of Birth:**

**Home Address:**

**Bail Status:**

**(including bail address, if different to home address)**

**Name(s) and date(s) of birth of Child/ren and Adults who also reside at the above address, and names of other children who have significant contact with the offender:**

| Name | Age/D.O.B | Relationship/contact with offender (incl address if different to offender's) | School/nursery/college (if known) |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

RESTRICTED

32

13/11 2013 10:45 FAX 01698828376 ☒0003/0004

RESTRICTED

London Probation Trust

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

London Probation Trust is currently involved in a statutory capacity with the above named. We would be grateful if you would complete the form below and return it by fax.

Please mark it for the attention of : ............................

Please ensure that it is returned as soon as possible in order to ensure the offender manager is in a position to complete a meaningful assessment regarding any Safeguarding Children concerns for the courts and the risk management plan.

**Sent by:** **Position:**

**Signature:** ..................................................... **Date:**

**Please complete the questions below:**

| | | |
|---|---|---|
| Is the defendant known to Children's Social Care? If so, in what capacity? | Please select | |
| Are the children known to Children's Social Care who reside or visit this address? | Please select | |
| If so, what is the nature of your contact with them (e g Child Protection Plan, Section 17 support) | | |
| Date Child made subject to Child Protection Plan. (if applicable) | | **Name of Social Worker Involved:**<br><br>**Contact Tel No:** |

RESTRICTED
33

13/11 2013 10:45 FAX 01698828376
0004/0004